


ECO'R WYDDFA

Rhif 216

HYDREF 1995

25c.



Pam fod y gŵr bonheddig yma mor hapus, meddech chi, ac yntau bellach allan o waith? Cewch fwy o wybodaeth ar dudalen 2.

A YW'R RHOD WEDI TROI?

Ym mis Mawrth 1988 cyhoeddwyd erthygl yn yr Eco — erthygl a gafodd gryn sylw yn lleol ac yn genedlaethol. Ynddi roedd Rol Williams yn cyhoeddi canlyniadau ymchwil i ysgolion cynradd y fro oedd yn awgrymu bod sefyllfa'r Gymraeg yn bur fregus. Yn 1988 roedd bron i draean o'r plant o aelwydydd di-Gymraeg ac yn fwy pryderus efallai, fod bron i hanner y plant newydd lleiaf o aelwydydd o'r fath. 'Ymddengys fod sylfeini un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg yn yr ardal hon . . . yn awr yn bur sigledig a lle i bryderu yn wir sydd gennym am ddyfodol yr iaith yn holl ddalgylch *Eco'r Wyddfa*,' meddai Rol Williams ar y pryd.

Sut mae'r sefyllfa bellach? A wireddwyd y pryderon, neu a oes yna arwyddion fod y rhod wedi troi a'r Gymraeg yn brwydro'n ôl? Mae un o newyddiadurwyr y cylchgrawn poblogaidd *Golwg* wedi bod yn yr ardal yn ail-edrych ar y sefyllfa eleni ac mae'r dystiolaeth wedi ei gyhoeddi yn un o rifynnau'r cylchgrawn yn ystod Medi.

Saith mlynedd ar ôl cyhoeddi'r erthygl wreiddiol mae'n ymddangos bod y sefyllfa'n gwella. Mae'r ymchwil newydd a wnaed gan *Golwg* yn dangos mai ychydig dros chwarter plant y saith ysgol o fewn y fro sydd o aelwydydd di-Gymraeg erbyn hyn a dim ond 28% o'r plant bach sy'n dechrau'r ysgol am y tro cyntaf. Bu gostyngiad yn nifer y mewnfudwyr ym mhob un o'r ysgolion, gyda'r newid mwyaf yn Llanberis. Bellach, 17% o blant Ysgol Dolbadarn sydd o gartrefi di-Gymraeg o'i gymharu â 42% yn 1988. Mae'r gostyngiad hefyd yn cael ei adlewyrchu yn nifer y plant bach newydd di-Gymraeg. Yn 1988 roedd dros hanner y plant o'r fath yn ddi-Gymraeg yn Ysgol Waunfawr ac yn Ysgol Penisarwaun, ond erbyn eleni rhyw un o bob tri o'r plant bach yma sydd o aelwydydd di-Gymraeg.

Mae ymchwil *Golwg* yn awgrymu fod Cwm-y-glo yn eithriad.

Gwelwyd twf sylweddol yn nifer y plant yn Ysgol Cwm-y-glo. Mae yno 70 o blant bellach o'i gymharu â 37 yn 1988 ac mae'r ffigurau moel yn awgrymu bod hanner y plant

presennol o aelwydydd di-Gymraeg. Mewn gwirionedd mae cyfran uchel o'r rhain o gartrefi cymysg eu hiaith, a'r plant yn eitha gyfarwydd â'r Gymraeg os nad yn ei siarad yn rhugl pan yn cychwyn yn yr ysgol.

Beth ddaeth o'r plant hynny gychwynnodd yn yr ysgolion cynradd yn 1988? A fu unrhyw effaith ar yr ysgolion? Saith mlynedd yn ddiweddarach mae'r mwyafrif o'r plant hynny newydd ddechrau yn Ysgol Brynrefail.

'Roedd 107 o blant newydd yma'r bore yma, ac roedd hi'n bosib siarad Cymraeg bob gair yn y gwasanaeth,' meddai John Grisdale, prifathro'r

ysgol, wrth *Golwg*. 'Mae'r rhan fwyaf yn rhugl a'u hiaith mor arbennig o dda fel bod y mwyafrif helaeth o'r plant yn dilyn pynciau drwy gyfrwng Y Gymraeg.'

A yw'r rhod wedi troi? Efallai, ond mae'r athrawon a swyddogion addysg yn rhybuddio rhag eistedd yn ôl. Mae'r erthygl yn nodi fod y mewnlifiad yn rhannol ddibynnol ar yr economi. Petai'r economi yn codi gallai'r sefyllfa waethgu a phryderon erthygl 1988 gael eu gwireddu unwaith eto. Os nad yw'r mewnlifiad presennol cyn gryfed ac yr oedd mae'n dal yn ddigon cryf i newid iaith ein cymdeithas.

1988	PLANT YSGOL	AELWYDYDD DI-GYMRAEG	CANRAN	PLANT NEWYDD MEDI 1988	AELWYDYDD DI-GYMRAEG
LLANRUG.....	222	53	23%	27	9
BETHEL.....	152	43	28%	20	6
LLANBERIS.....	146	62	42%	24	12
DEINIOLEN.....	138	51	37%	22	9
WAUNFAWR.....	123	46	37%	20	11
PENISARWAUN.....	58	17	30%	11	6
CWM-Y-GLO.....	37	15	39%	4	2
CYFANSWM.....	878	287	32%	128	55

1995	PLANT YSGOL	AELWYDYDD DI-GYMRAEG	CANRAN	PLANT NEWYDD MEDI 1995	AELWYDYDD DI-GYMRAEG
LLANRUG.....	200	45	22%	23	7
BETHEL.....	157	35	22%	25	4
LLANBERIS.....	156	27	17%	23	5
DEINIOLEN.....	134	36	26%	17	5
WAUNFAWR.....	105	34	32%	18	6
PENISARWAUN.....	85	29	34%	19	5
CWM-Y-GLO.....	70	35	50%	10	5
CYFANSWM.....	904	240	26%	135	38

Rhai o wynebau newydd yn ysgolion y fro . . .



Rhai o blant bach newydd Ysgol Llanrug.



Rhai o blant newydd Ysgol Dolbadarn yn dechrau cyfarwyddo â'r cyfrifiadu'r yn barod!

ECO'R WYDDFA

Rhif 216
HYDREF 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithnog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, HYDREF 26
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, HYDREF 16
Os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
TACHWEDD RHAGFYR	HYDREF 26 TACHWEDD 30	LLANBERIS CAEATHRO	Mr Gwilym Evans Mr Clive James	872034 677438

Diolch i'r cysylltwyr am'eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115

WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (650556)

DEINIOLLEN:

LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyrau

Cyflwr Cae'r Gors

Annwyl Olygydd,

Mae amryw wedi datgan eu pryder
ynghlŷn â chyflwr Cae'r Gors, Rhos-
gadfan, a fu'n gartref i'r ddiweddar
Dr Kate Roberts.

Mae dros 25 mlynedd, bellach, er
pan gyflwynwyd y cartref i'r genedl
pryd y cafodd yr adeilad ei ddi-doi a'i
addasu a'i adael fel cragen yn unig.
Mae'r ymddiriedolwyr, y Parchg
Islwyn Ffowc Elis, Llanbedr Pont
Steffan, ac Ifor Wyn Williams,
Bangor, wedi gofyn i mi drefnu
cyfarfod cyhoeddus i ystyried pa ofal
ychwanegol y dylid ei ystyried
ynghlŷn â'r lle.

Gwahoddir pawd sydd â
diddordeb i **Lyfrgell Arfon/Dwyfor**
(sydd â'i mynedfa gyferbyn â Theatr
Seilo), **Caernarfon, ddydd Sadwrn, 7**
Hydref, am 2 o'r gloch y prynhawn.

Yn gywir,

GUTO ROBERTS

Gorwelion, Y Groeslon, Caernarfon

RHODDION

£5: Teulu Graianfryn, Waunfawr; Mrs M.
Owen, 26 Stad Tref Eilian, Waunfawr;
Mrs Mattie Hughes, Tan y Clogwyn,
Llanberis; Mrs Maggie Griffiths,
Rhydychen (gynt o Maes Eilian,
Dinorwig); Mrs Brenda Richardson, Llys
Helyg, Penisarwaun; Wendy a Kevin,
1 Dôl Elidir, Llanberis; David C.
Williams, 9 Bro Rhos, Bethel; Einir ac
Euros Davies, Ceunant.

£3: Rol Williams, 5 Pant y Waun,
Waunfawr; Mrs B. Parry, 6 Bro Deiniol,
Deiniolen; Kevin a Nia Jones, 11 Stryd
Newton, Llanberis.

£2: Nia Wyn, 17 Dôlafon, Cwm-y-glo;
Carys a Mark, Llanberis; Nicola Baylis,
Anfield, Llanberis; Gwilym a Mona Jones,
17 Dôl Elidir, Llanberis.

£1: Kevin a Sioned Jones, 88 Maes Padarn,
Llanberis.

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

Pant Tirlon, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy tychan
Dim un dasg rhy fawr

CYFARFOD FFARWELIO



Mr John Grisdale, prifathro Ysgol Brynrefail, yn cyflwyno rhodd o
werthfawrogiad i Mr Dic Parry a Mrs Rhian Ellis oedd yn ymddeol ym
mis Gorffennaf. Rhoddodd y ddau dros 50 mlynedd o wasanaeth
rhyngddynt i'r ysgol.

DRAENOG



Tri pherson o'r plwyf wedi mynd
i Lundain i wneud gwaith
contract. Roedd tŷ lojin wedi ei
baratoi ar eu cyfer. Cwyn y
noson gyntaf i ŵr y tŷ lojin —
'Dydi'r teledu ddim yn
gweithio . . . alla i ddim cael
Pobol y Cwm'. Yna, meddai un
o'r tri, 'Peidiwch â phoeni rydan
ni am ddod a'n teledu ein hunain
hefo ni yr wythnos nesa.'

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen

Gan fod cymaint o fandaleiddio ar eiddo cyhoeddus, fel cysgodfannau, fe benderfynodd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniol rai blynyddoedd yn ôl beidio gwario mwy o arian y trethdalwyr i'w trwsio. Yn ei gyfarfod diwethaf, fodd bynnag, penderfynwyd rhoi un cynnig arall arni. Bydd angen 48 o baneli gwydr 'Lexan' i atgyweirio chwe cysgodfan yn y plwyf. Bydd y gost, gan gynnwys eu peintio a glanhau'r rhwd yn £2,580 ac mae'r Cyngor yn mawr obeithio na fydd y cysgodfannau hyn yn cael eu fandaleiddio yn y dyfodol. Apelir ar i'r cyhoedd hysbysu unrhyw aelod o'r Cyngor, neu hysbysu'r heddlu, os gwelir unrhyw berson yn camddefnyddio neu yn achosi difrod i eiddo cyhoeddus.

Os oes unrhyw fudiad gwirfoddol yn y plwyf yn awyddus i'r Cyngor ystyried eu cais am rodd, yna fe ddylent anfon eu ceisiadau i'r Clerc, **Selwyn Griffith, Crud-yr-awen, Penisarwaun, cyn HYDREF 21ain. Rhaid anfon adroddiad ariannol manwl a chywir gyda'r cais. Ni ellir ystyried unrhyw gais ar ôl y dyddiad uchod.**

Mae'r Cyngor yn dal i gael cwynion nad yw hi'n bosib mynd ar hyd y llwybr i gyfeiriad Ffynnon Cegin Arthur. Addawodd y Cyngor Sir ailagor y llwybr hwn rai blynyddoedd yn ôl bellach.

Nid oedd y Cyngor yn fodlon

Antur Padarn

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Antur yn Ystafell Gymuned Penisarwaun, ar nos Iau, 14 Medi. Cafwyd adroddiad am Gynllun Leader ac am y Gynhadledd sydd i'w chynnal ym Mhorthmadog ar 5 a 6 Hydref i dynnu sylw at y gwahanol ffynonellau cyllidol preifat a chyhoeddus sydd ar gael tuag at wahanol brosiectau.

Mynegwyd siomiant ynglŷn â'r arafwch i dacleso safle Craig yr Undeb, ym Mhen Llyn, gan fod y safle yn fangre bwysig iawn i'r ardalwyr. Cytunwyd i roddi pwysau ychwanegol ar yr awdurdodau perthnasol i symud ymlaen â'r mater hwn.

Cafwyd trafodaeth fuddiol a diddorol iawn ynglŷn â rhaglen waith yr Antur dros y misoedd nesaf a chafodd sawl syniad ei wyntyllu. Gobeithir gallu adrodd mwy am hyn yn yr Eco yn ystod y misoedd sydd i ddod.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar **nos Iau, 19 Hydref, am 7 o'r gloch yn Ystafell Gymuned Penisarwaun.** Bydd croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yng ngwaith yr Antur i'r cyfarfod hwn.

ar benderfyniad yr Ymddiriedaeth Iechyd yn ymrwnged ag ystyried sefydlu clinig-trin-traed yn Neiniolen a phenderfynwyd gofyn iddynt ailystyried y mater.

Penderfynwyd cefnogi awgrym y Cyngor Sir mai **'Cyngor Gwynedd'** y dylid galw'r Cyngor newydd.

Cyngerdd Dathlu Cymorth Cristnogol

Eleni mae Cymorth Cristnogol yn dathlu hanner canmlwyddiant ei sefydlu ac fel rhan o'r dathliad fe gynhelir **cyngerdd arbennig iawn ym Mhafiliwn Corwen, nos Sadwrn, 14 Hydref, am 7 o'r gloch.**

Yr artistiaid fydd **Dafydd Iwan, Ar Log, Côr Merched Edeyrnion a Llion Williams.** Dyma fydd y tro cyntaf i Dafydd Iwan ac Ar Log berfformio

gyda'i gilydd ers 1988.

Mae'r tocynnau yn awr ar werth gan **Mrs Lis Perkins, Swyddfa Cymorth Cristnogol 33 Ffordd y Coleg, Bangor (ffôn: 01248 361267).** Pris mynediad yw £5 i oedolion a £3 i blant dan 16 oed. Bydd yr elw i gyd yn mynd at waith Cymorth Cristnogol yn y Trydydd Byd.

Dewch yn llw i'r dathliad.

SONED I ECO'R WYDDFA

Nid diystyrru'r byd a fynwn i
Wrth dy wahodd i'r tŷ drwy dwll fy nôr;
Er nad yw hyd a lled dy stori di
Ond cornel ar fy map rhwng bryn a môr,
Caf glywed, drwy dy fisol lais, am hynt
Fy nghyddfoddolion cu o dro i dro,
A aned ac a faged yma gynt,
Gan wau patrymau bywyd yr hen fro.
Dy eco edrydd am gyfamod serch
Llanc a'i anwylyd; sancteiddiolaf awr
Allor a modrwy; geni mab a merch;
Rhamant eu byw ynghyd a'u troeon mawr;
A'th air yn drist wrth nodi olaf hynt
Rhywun fu'n rhan o'r hen gymdeithas gynt.

NORMAN WILLIAMS, Godre'r Coed, Brynrefail

GRANTIAU IAITH

Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn gwahodd ceisiadau am gymorth grant ar gyfer y flwyddyn ariannol 1996/97. Dyfernir y grantiau i weithgareddau wedi eu cynllunio i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae grantiau gwerth £620k wedi eu dyfarnu hyd yn hyn yn ystod 1995/96 ac mae'r Bwrdd yn rhagweld y bydd swm tebyg ar gael y flwyddyn nesaf.

Wrth roi ei sylwadau am y rhaglen grantiau dywedodd Cadeirydd y Bwrdd, Yr Arglwydd Elis-Thomas:

"Mae'r rhaglen hon yn rhoi cyfle i'r Bwrdd weithio mewn

partneriaeth â sefydliadau eraill ledled Cymru er mwyn sicrhau y daw defnyddio'r Gymraeg yn rhan gynyddol normal, perthnasol a phleserus o fywyd modern bob dydd. Hoffwn i ymgeiswyr am grantiau eleni osod eu gweledigaeth am ddod â'r iaith i bobl Cymru ble bynnag y maent yn byw, a beth bynnag yw patrwm eu bywyd."

Gellir cael gwybodaeth bellach a ffurflen gais oddi wrth Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd CF1 2AT, rhif ffôn: (01222) 224744. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Tachwedd 1995.

GORSAF BETROL BERAN DEINIOLLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
Cylchgronnau ● Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd ● Wyau
Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

Emyr Jones

**PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon 673513



Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip

Amcanbris
am ddim

BANGOR

(01248) 364493

unrhyw adeg

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**

**Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470**



O SIAMBAR SELWYN

Mae o'n syndod i mi fod 'na Gymro neu Gymraes ym mhob gwlad yn yr hen fyd 'ma bron. Os digwydd rhyw drychined, neu os oes rhyw wlad yn y newyddion, gellwch fentro y bydd gwasanaeth newyddion y BBC wedi cysylltu â rhywun i siarad yn Gymraeg am y digwyddiad.

Rhaid i mi gyfaddef, bob tro y bydda i'n codi mhac o'r hen wlad 'ma, dau beth fydda i'n eu colli: Radio Cymru a'r *Daily Post* — hynny yw tudalennau ola'r *DF* a'r tudalennau canol bob bore Llun. Diolch i Radio Cymru am yr amrywiaeth o raglenni diddorol, a diolch i'r *Daily Post* am yr adroddiadau cynhwysfawr am chwaraeon yng ngogledd Cymru. Na, fydda i'n colli dim ar raglenni teledu, ond mi fydda i'n poeni o sylwi bod yna fwy yn gwylio un gêm yn Anfield ac yn Old Trafford nag sy'n gwylio nifer o raglenni Cymraeg drwy Gymru gyfan . . . na feier Manchester United na Lerpwl am hynny.

Tua hanner nos oedd hi a minnau newydd gyrraedd y gwesty yn Reykjavik, prifddinas Gwlad yr Iâ. Roeddwn wrthi'n ymbalfalu â'r goriad yn nrws yr ystafell wely pan ganodd y ffôn. Syndod, sioc, dychryn, cynhyrfu. Be sy' wedi digwydd? Pwy sy' 'na? Newydd drwg? Dyna'r meddyliau sy'n gwibio drwy feddwl rhywun wrth iddo dderbyn galwad ffôn ac yntau newydd gyrraedd gwlad dramor. Codi'r teclyn yn ofalus a phryderus a sibrd y ddeusill cyfarchion arferol:

'Helô.'

Llund ceg o Gymraeg byrlymus yn llifo drwy'r:

'Mr Griffith, ia? Selwyn Griffith? O, 'da chi wedi cyrraedd. 'Dwi wedi ffonio sawl tro. 'Da chi wedi blino reit siŵr? Ylwch, mi fydda i yn galw amdano chi am naw o'r gloch bora fory. Mi gewch ddod acw, ac mi af a chi o gwmpas y ddinas 'ma.' Yna saib . . . 'Sori, ddeudis i ddim pwy ydw i, naddo — wel, Leo sy 'ma, Leo Munro.'

Na, doeddwn i erioed wedi cyfarfod â'r gŵr croesawgar hwn, ond fe syrthiodd y geiniog i slot

fy meddwl blinedig. Roeddwn i wedi bod yn Newquay bythefnos ynghynt hefo un o dripiu Arfon, ac ar y trip hwnnw roeddwn i wedi cyfarfod â Joyce Jones o Fangor. Yn ystod yr wythnos buom yn trafod teithiau i wahanol wledydd.

'Ble 'da chi'n mynd nesa?' gofynnodd Joyce.

'I Wlad yr Iâ.'

'Gwlad wych,' meddai, 'gwlad ryfeddol. Mi fydda i yn mynd yno'n amal. Ma' 'mrawd yn byw yno ers blynnyddoedd.'

Ia, Leo, brawd Joyce, oedd ar y ffôn.

Yn anffodus, gan ein bod ni'n cychwyn ar ein taith o gwmpas y wlad y bore wedyn, ni fedrwn fanteisio ar garedigrwydd Leo.

'Mi fyddwn ni yma am ddwy noson ar ddiwedd y daith,' meddwn.

'Mi fydda inna ar fy ngwylia yng Nghymru erbyn hynny,' meddai'r gŵr hoffus o Fangor, sy'n athro ysgol yng Ngwlad yr Iâ.

Felly, er i mi gael croeso o waelod calon ar y ffôn, roedd hi'n amhosib i mi gyfarfod â Leo. Rwy'n edrych ymlaen at y cyfle gan fedar rhywun sy mor groesawgar ar y ffôn ddim peidio â bod yn rhywun gwerth chweil i'w nabod. O, ydi, ma'r hen fyd ma'n fach iawn, ac ma' 'na Gymro neu Gymraes ym mhob rhan ohonno.

Fe gês i alwad ffôn yr un mor gyffrous ac annisgwyl pan oedd T. Gwynn Jones a minnau ym mhen draw'r byd yn 1976 gyda pharti o Gymry. Roeddwn yn cyrraedd fy ystafell yn Auckland, Seland Newydd, pan ganodd y ffôn. Yr un cwestiynnau amheus yn gwibio drwy fy meddwl . . . 'Pwy? Be sy? Salwch. Damwain. Ty'd adra.'

'Helô,' tawel, crynedig, eto.

'Selwyn, chdi sy 'na? Bob sy

'ma. Bob Cae Dicwm. Yli, mi fydda i'n galw amdanat ti bora fory. Mi gei di ddod acw am y diwrnog. Dos i dy wely rŵan iti ga'l rest iawn.'

Roedd gen i dridiau yn Auckland felly mi fedrais i dderbyn gwahoddiad caredig Bob, a melyn fu'r sgwrs a'r gwmniath drwy'r dydd. Cyn mynd oddi yno gofynnodd Bob:

'Faint ohonoch chi sy' ar y trip 'ma?'

'Ugain,' meddwn.

Aeth Bob i'w ardd a chasglu ugain o orennau oddi ar y goeden.

'Dyma ti,' meddai, 'oren o un o erddi Seland Newydd i bob un o'r criw.'

Cyrraedd maes awyr Fiji a gŵr y tollau yn chwilio'r bag llaw a goedd gen i. Panics, creisis, rhuthro gwyllt, a'r ffrwythau'n

dael eu cipio ymaith ar wib fel petaent yn fomiau. Roeddwn wedi torri'r gyfraith drwy gario ffrwythau o un wlad i'r llall! Diflannodd orennau Bob Cae Dicwm i grombil un o fagiau sbwriel Fiji.

* * * *

Mi wn fod yr *Eco* yn cyrraedd pob rhan o Gymru yn ogystal ag i bellafoedd daear, a bod yna amryw o Gymry alltud yn troi i mewn i'r Siambar 'ma.

Un o'r aelwydydd hynny ydi Tŷ Capel Eglwys Gymraeg, Melbourne, Awstralia, a dyna i chi le arall lle cewch chi groeso bythgofiadwy — croeso Cymreig . . . gobeithio eich bod chi'n gwella yna.

Ydi'r *Eco* yn cyrraedd Seland Newydd ys gwn i? Ys gwn i ydi Bob Cae Dicwm ar dir y byw o hyd ym mhen draw'r byd 'ma?

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

**LLYSIAU AR
GYFER PICLO**

Cefnogwch Fusnesau Lleol

CEIR CYMRU
BETHEL (0248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

AMDDIFAD YN LIMBO

Rhagor o atgofion Miss O. M. Davies, Bangor am ei phlentyndod yn Llanberis.

Aeth dyddiau ysgafala plentyndod heibio. Dyddiau'r cylchyn a bach pan redem i lawr allt y Ring am y cyntaf i gyrraedd y gwaelod. Dyddiau brwstan a thriog yn y gwanwyn, dyddiau mynd i Ben y Ceunant i nôl piseriad o laeth enwyn am geiniog. Ar ôl hirlwm gaeaf pan fyddai lluwchfeydd eria i fyny at lintal y ffenest, a'r corwyntoedd yn rhoi yn y simne, a phawb yn closio at y tân i gadw'r oerfel allan, deuai'r eirlysiau fel perlau i'r ardd ffrynt, a chyn hir byddem yn rhedeg i'r Parc Bach i brancio fel ŵyn ar y creigiau. Weithiau edrychem i lawr ar siediau'r lein fach a gwelem blant o'r pentre yn casglu glo a chols o ben y twmpathau gerllaw. Byddai'r genod yn bowndian pêl ar dalcen y tŷ-pen, lle roedd teulu o ddeuddeg o blant wedi symud i mewn i hen dŷ Taid. Wrth fôn y talcen swatai'r hogiau yn chware marblis. Ar noson olau leuad byddem yn chwarae mig yn y cysgodion o gwmpas y tai, ein sgrechiau o ofn pleserus yn gymysg â thincial yr afon yn llithro dros y cerrig yng ngwaelod y gerddi. Yna'r mamau ac Anti'n galw ar y plant i ddod i mewn i swper. Byddai sŵn y dylluan yng nghoed y Derlwyn yn codi ofn arnaf. Weithiau ar bnawn Sadwrn awn i lawr i'r Coparét i nôl neges, a mentrwn wario tair ceiniog o'r newid i fynd i'r Hall i'r pictiws. Tom Mix ar ei geffyl, Pearl White yn hongiad uwchben dibyn, a Charlie Chaplin yn troelli'i ffon a gwadnau ei esgidiau'n gegagored rydd. Yna clywed lleisiau am y tro cyntaf, gydag Al Jolson yn bloeddio'n wylofus, 'Climb upon my knee, Sonny Boy'. Cawn fynd am dro efo merch hŷn na mi, weithiau i gyfeiriad y Castell, dro arall i fyny Ffordd Tŷ Du. Yna gwelwn un o hogiau'r Ysgol Sul yn loetran yn ddamweiniol fwriadol, a'r ddau'n sgwrsio a smalio, wedi anghofio am fy modolaeth i.

Bûm yn gwsberan dawedog amryw dro gan y gwyddai ei mam fy mod i gyda hi. Nid agorais i fy ngheg i ddatgelu'r gyfrinach, dim ond teimlo'n unig.

Roedd merch ieuengaf Yncl Edward, Jini fy nghyfnither, wedi priodi ac yn byw gerllaw. Byddwn yn hoffi mynd yno i'w helpu drwy wyllo'r babi yn y goetsh tra byddai hi'n paratoi swper chwarel. Cofiaf ei glywed yn anadlu'n gras; cyn hir fe gafodd gonfylsiwns a bu farw. Gwelais ei gorff bach yn gorwedd yn nror y wardrob i aros ei arch. Criaais am oriau ar ei ôl. Cafodd dri bachgen a geneth. Roedd ganddi lais tlws, a phrynodd biano ail-law. Clywn hi'n canu o'r stryd.

Ni wisgais wisg yr ysgol dim ond y tiwnic a'r flows. Rwy'n cofio ennill ar adrodd 'Araith Seithennyn' yn ddiweddarach, yn 'steddfod yr Eglwys, a phrynais got-law nefi blw, a theimlwn galon galed am imi gadw'r arian i gyd i mi fy hun. Gofynnodd un o wragedd y stryd i Anti, 'Pam na yrrwch chi'r hogan 'ma allan i weithio?' Cefais i a ffrind weithio'r haf canlynol yn siop Stesion y Wyddfa, i werthu da-da a chardiau a mân betheuach. Roedd Anti o gwmpas y trigain oed erbyn hynny, a'i hiechyd yn

fregus. Byddai'n siarad llawer am Harri, ei gŵr cyntaf. Roedd wedi'i gladdu ym mynwent Sant Tysilio ym Mhorthaethwy, ond nid oedd carreg ar ei fedd. 'Mi wn i lle mae o, ac mi rydw i isio fy nghladdu hefo fo,' meddai. Roedd wedi rhoi llun ohono ar wal y gegin ganol, yn sefyll yn nrws ei dŷ ym Mhorthaethwy a'i gi wrth ei ochr. 'Ngwas i,' meddai Anti a golwg bell yn ei llygaid. Yn y dyddiau pan oedd yn heini a siriol awn gyda hi i Gaernarfon ar bnawn Sadwrn. Dringem i lofft yr Hall lle roedd pob math o stondinau'n gwerthu mân geriach. Prynai Anti eli-cyrn gan y 'dyn du' chwedl hi, un o'r brodyr tywyll eu croen a welid mewn marchnadoedd neu'n crwydro o bentref i bentref i werthu edau, lastig, nodwyddau, rubanau a manion eraill. Caem baned o de mewn café, ac yna cerddem at y Cei i eistedd yn yr haul dan gysgod muriau'r Castell.

Byddai'r genethod yr ysgol yn mynd i'r dre ar bnawn Sadwrn hefyd. Eu pleser hwy oedd cerdded yn griwiau o gwmpas y Maes ac i lawr Stryd Bangor, i fyny Stryd Twll-yn-y-Wal ac yn ôl i'r Maes, gan ddod i gyfarfod â'r bechgyn a oedd ar yr un trywydd. Ymunais â hwy unwaith neu ddwy, ond yr oeddwn yn rhy swil i wneud unrhyw farc na chyffro. Cofiaf fod yn eiddigeddus fod dwy o'r

genod wedi cael cotiau lledr nefi blw i ddod i'r ysgol. Roedd un arall yn ferch i weinidog, a chanddi chwaer yn athrawes. Roedd ei thiwnic yn gwteuach a thewach tra roedd fy un i wedi breuo a llwydo. Roedd Anti'n falch bob amser y down yn gyntaf ar y rhestr blyneddol yn y dosbarth, ond deheuwn am rywun i roi cymorth a chalondid i mi wrth i mi ymdrechu i sgwennu traethodau neu ymlafnio i gyfieithu Lladin gyda'r nosau.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646



Lake View

Hotel
LLANBERIS
870422

Prydau Arbennig
ar gyfer partïon

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.


J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR
LLANRUG
Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

Siop Trin Gwallt
SANDRA
Stryd Fawr
DEINIOLEN
Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr


Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro —
nos Wener olaf bob mis

OSMOND SHAW
DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263



Priodas: Yn Eglwys Llanidan, Bryn-siencyn, ddydd Sadwrn, 26 Awst, priodwyd Wendy, merch Mr a Mrs Wavell Roberts, London House, â Martin, unig fab Mr a Mrs Donald Thomas, Arwelfa, Brynsiencyn. Byddant yn ymgartrefu yn Heddlas, Brynsiencyn. Llongyfarchiadau iddynt oddi wrth y ddau deulu.

Diolch: Dymuna Wendy a Martin ddiolch yn fawr iawn i bawb am yr anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Gwellhad: Dymunwn wellhad buan i Selwyn Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf, a dderbyniodd lawdriniaeth brys yn ddiweddar. Dipyn o fwytha iddo Bet!

Llongyfarchiadau i Lynette a Dave Garnet, Lôn Groes, ar enedigaeth eu mab bach, Andrew James, ac i Mr a Mrs R. Humphreys, Plas Gwyn, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. **Côr Clychau'r Grug:** Wedi seibiant dros wyliau'r haf y mae'r tymor newydd wedi cychwyn yn fyrlymus iawn. Cyflwynwyd eitemau crefyddol eu naws mewn Cymanfa Ganu lwyddiannus yn Eglwys Llanddeiniolen.

Diddanwyd ymwelwyr yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, ar nosweithiau lau, 7 a 14 Medi.

Daeth Mr John Owen a'i gi tywys

i wrando arnom ar 14 Medi a chasglwyd £91 tuag at y deillion.

Nos lau, 28 Medi, bydd y Côr yn diddanu yn noson agoriadol cangen Merched y Wawr, Y Bontnewydd.

Croesawyd aelod newydd, sef Carys Williams, a gobeithir y bydd yn hapus yn ein plith.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, 12 Medi, am 7.30 o'r gloch, yn yr Ysgol Gynradd, estynnwyd croeso cynnes i'r holl aelodau gan y llywydd, Meirwen Lloyd. Diolchwyd i'r rhai fu'n helpu i gasglu at Gronfa'r Galon — swm anrhydeddus o £371.21.

Mynegwyd pryder mawr ynglŷn â'r ffaith fod llywodraeth Ffrainc wedi dechrau profion niwcliar yn y Môr Tawel. Anogir pob aelod i ddatgan eu gwrthwynebiad yn ysgrifenedig i'n Aelod Seneddol ac argymhellir pob un i ymwrthod â phrynu nwyddau Ffrengig. Atgoffir y merched sydd dros 50 oed fod Bron Brawf ar gael yn safle Safeway, Caernarfon, o fis Medi i fis Rhagfyr.

Gŵr gwadd y noson oedd y Parchg Harri Parri, Caernarfon, gyda darlith am 'Llwg ym Mhenrhyn Llŷn'. Bu'n olrhain hanes bywyd y Parchg Joseff Morus a lwygwyd ar un cyfnod, ond er gwaethaf pawb a phopeth, ac er ei daflu o don i don bu farw'n hen ŵr 84 oed. Diolchwyd i Mr Parri gan Phyllis Elis. Diolchodd Nan Humphreys i Meryl, Ann Gibbins a Julie am wneud y baned. Enillydd y raffl oedd Joan Griffith.

Ar 3 Hydref bydd y gangen yn mynd i Theatr Gwynedd i weld cyflwyniad o 'William Jones' ac mae'r tocynnau ar gael gan Mary Roberts, Gwyndy.

Plaid Cymru: Llongyfarchiadau i dîm Bethel, y tîm buddugol mewn cwis i ganghennau'r cylch a gynhaliwyd nos Fercher, 13 Medi. Y cwis-feistr oedd Arwel Jones a chafwyd noson hwyliog iawn yn ei gwmni. Croesawyd y timau gan Miss Phyllis Ellis, llywydd Cangen Llanrug, a mwynhaodd pawb sgwrs uwchben paned ar ddiwedd y cyfarfod. Enillydd raffl y noson oedd Mrs Megan Williams, Y Felinheli.

Cyhoeddwyd y bydd Diwrnod Agored yn Swyddfa'r Blaid yn Stryd y Castell, Caernarfon, ddydd Gwener, 29 Medi. Mae croeso cynnes i bawb alw rhwng 10.30 a.m. a 4 p.m. am sgwrs a phaned, ac apeliwyd am roddion at y bwrdd gwerthu.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
675754

EISTEDDFOD LLANRUG

nos Wener
HYDREF 15

am 5.30 o'r gloch

NOSON CELF A CHREFFT

nos Lun

HYDREF 9

6.00 - 6.30 o'r gloch

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Yr Ysgol Gymuned: Cynhelir Ffair Lyfrau Cymraeg a Saesneg yn y Neuadd ar nos Fawrth, 31 Hydref, o 5 o'r gloch ymlaen. Bydd yr elw yn mynd tuag at brynu adnoddau i'r Ysgol.

Llongyfarchiadau i Rhian Williams, Careb, ar gwblhau ei chwrs nyrsio a phob dymuniad da iddi yn ei swydd yng Nghaerdydd.

18 oed: Pob dymuniad da i Arwel Jones, 11 Bryntirion, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

Genedigaeth: Ein cofion anwylaf at Ceren ac Aled Jones, 4 Bryn Eglwys gynt, ar enedigaeth eu mab bychan, Guto Siôn. Pob hapusrwydd i chwi fel teulu.

Cartref Newydd: Pob dymuniad da i Ffion, Derec, Mannon Catrin ac Elin yn eu cartref newydd, Erw Gain, Llanrug.

Cydymdeimlo: Cydymdeimlir yn ddwys â theulu Perthi ar farwolaeth ewythr yn Llundain.

Pwyllgor Neuadd: Tynnwys Clwb Cant mis Awst mewn pwyllgor yn yr Ystafell Gymuned, a'r enillwyr oedd: 1, Ron Hughes, Brynhyfryd; 2, Elinor Jones, Heather Bank; 3, Rhian Roberts, Pen-y-groes.

Daeth nifer dda o blant ac oedolion ar y daith 'Cerdded Llwybrau' fore Sadwrn, 16 Medi. Roedd yn fore mwyn ac fe fwynhaodd pawb y daith a'r baned dda wedi dychwelyd. Diolchir i Leslie Larsen am drefnu'r daith ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y weithgaredd. Dymuniad pawb oedd cael taith gyffelyb eto yn fuan.

Gweithgaredd mis Hydref fydd hwyll a sbri 'Noson Calangaeaf', nos Fawrth, 31 Hydref, yn y Neuadd Gymuned am 6.30 p.m. Dyma'r cystadlaethau: 1, Jac Lantern; 2, Ysgub; 3, Mwgwd; 4, Gwisg; 5, Swynion; 6, Teisen Calangaeaf. Bydd stondinau a raffl ar werth ar y noson.

Raffl Nadolig fydd gweithgaredd Tachwedd a Rhagfyr, ac fe'i tynnir yn ystod Noson Canu Carolau.

Bydd elw'r gweithgareddau hyn yn mynd tuag at gostau rhedeg y Neuadd a chael seinyddion i'r Neuadd ar gyfer cyngherddau a'r Eisteddfod. Felly, diolchir i chwi am eich cefnogaeth.

Plygu'r Eco: Diolchir i bawb a ddaeth i Neuadd Eglwys Santes Helen i blygu'r rhifyn hwn.

YR YSGOL GYNRADD

Dyma luniau rhai o'r plant gychwynnodd o'r newydd yn yr ysgol ar ddechrau Medi. Maent yn amlwg wedi setlo ar unwaith.



★ Tacs
★ Maes Awyr



Yfwch chi
Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Colled: Ar 29 Awst bu gwasanaeth angladd Mrs Megan Williams, Dwyfor, yng Nghapel Tanycoed, dan ofal y Parchg Merfyn Jones.

Bu Mrs Williams yn aelod selog a gweithgar yn yr eglwys. Pan gymerai ran yn gyhoeddus fe ddarllenai emynau a gweddïau yn glir a meddylgar. Roedd ganddi gof da iawn, ac fe ddysgodd adrodd enwau llyfrau y Beibl i gyd fel adnod. Byddai Mrs Williams bob amser yn barod ei chymwynas a bydd colled ar ei hôl.

Roedd trefniadau'r angladd yng ngofal Mr E. W. Pritchard, Llanberis, a rhoddwyd blodau gan y teulu a'i ffrindiau.

Gwaeledd: Drwg gennym glywed fod Mrs McAnn, Preswylfa, yn Ysbyty Gwynedd ac fe anfonwn ein dymuniadau am adferiad iechyd llwyr a buan iddi; ac i eraill o'r ardal sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon (Waunfawr 799)

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu Tyddyn Ni, Ceunant, yn eu profedigaeth ddiweddar.

Diolch: Dymuna Euros ac Einir Davies ddiolch yn fawr iawn i deulu a ffrindiau am yr anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur eu priodas. Diolch yn fawr i bawb.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Croeso i lan a Sharon Hughes i'w cartref newydd yn 11 Rhes Glangwna; a dymuniadau gorau hefyd i Steve a Ruth Barnard sydd wedi ymadael â'r pentref.

Pysgota: Yn y cylchgrawn cenedlaethol *Trout and Salmon* fis Medi cyfeiriwyd at lwyddiant Bryn Griffiths, Delfryn, a'i ddawn i ddal siwin yn Afon Llyfni. Mae Cymdeithas Pysgotwyr Seiont, Gwyrfa i Llyfni, yn ôl yr erthygl, i'w llongyfarch am fod yn un o'r ychydig gymdeithasau ym Mhrydain sy'n berchen ar ddyfroedd sydd mor gyfoethog o siwin.

S4C: Llongyfarchiadau i Dafydd Iwan, Carrog, ar gychwyn ardderchog i'w gyfres deledu 'Yma Mae 'Nghân' — cyfres go hir

gobeithio.

Gwasanaethau'r Capel: Bydd y gwasanaethau o dan ofal y canlynol yn ystod mis Hydref:

1 Diolchgarwch. Parchg W. R. Williams (2)

8 Parchg S. O. Hughes

15 Parchg W. R. Williams (10)

22 Parchg Gareth Alban Davies (2)

29 Parchg W. R. Williams

Diolch: Braf yw gweld gwerthiant yr Eco yn cynyddu yn yr ardal. Diolch i Mr Evans, Garej Gwalia, am fod mor barod i gael pentwr ar y cownter bob mis.


Dyfodol Cymuned y Pentref: Wrth i'r bysus gludo'r plant i Gaernarfon a'r Bontnewydd ar gyfer eu haddysgu, sylweddwn cyn lleied o blant sydd yn y pentref. Mae'r pentref erbyn hyn

wedi troi i fod yn gartrefi i'r henoed a pharau ifanc di-blant. A oes cysylltiad gydag absenoldeb gwasanaethau sylfaenol fel llecyn chwarae i'r plant lleiaf a thoriad ar y pafin ar y fordd i'r siop yn y Garej? Pe bai byngalos yr henoed a fyddai teuluoedd ifanc a phlant yn y tai cyngor? Gan fod y pentref wedi dibynnu ar y Festri fel man cyfarfod mae'r gymdeithas heb fan cyfarfod rwan. A fydd festri newydd y Capel mor hwylus â'r hen, diolch i'r eglwys am eu darpariaeth, fodd bynnag. Ie, mae'r pentref wedi newid dros yr ugain mlynedd diwethaf. Ers talwm roedd pentrefi eraill yn cenfigennu wrth ysbryd Caeathro. A yw'r pentref yn dioddef rwan oherwydd ei agosrwydd at dref Caernarfon? Neu, efallai, dyma batrwm y dyfodol — pawb â char, teledu a fideo, cyfrifiadur a rhaglenni. Ai hap a damwain yw lleoliad yr aelwyd — dinas, tref, pentref mawr, pentre bach neu gefn gwlad erbyn heddiw?

DRAENOG



Welsoch chi'r hysbyseb teledu ceir Rover sy'n dangos dyn yn prynu car newydd, ac yn sylweddoli bod y car yn rhy fawr i'w gadw yn y garej? Rhaid cydymdeimlo â'r siopwr lleol sydd wrthi'n codi tŷ newydd yn y fro ac wedi gweld bod y garej a godwyd yn rhy fach ar gyfer y car. Gan eu bod yn rhannu'r un enw, mae'n bosib y gallai'r consuriwr Rovi helpu'r siopwr trwy alw heibio a throï'r garej fach yn garej fwy!



ARDDANGOSFA CREFFTAU LLEOL

yn

Ysgol Gynradd Llanrug

Dydd Sadwrn

Hydref 21ain 1995.

10.00a.m. hyd 4.00p.m.

*Dowch i weld gwaith yr amrywiol grefftwyr sy'n byw yn yr ardal ac efallai cael ambell i fargen ar anrheg Nadolig cynnar.
Bydd paned ar gael hefyd!*

Mynediad:- 50 ceiniog i oedolion
20 ceiniog i blant.

Yr elw at gronfa Canolfan Gymunedol Llanrug

**Noddwyd y diwrnod gan
Gyngor Cymuned Llanrug**

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos



SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

**Basgedi Blodau Sych ★ Siwti
Jams ★ Briwgig ★ Siampw,
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi**

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

DEINIOLLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Clwb Elidir: Pnawn dydd Mawrth, 5 Medi, ail-gychwynnodd y Clwb wedi saib bach dros yr haf. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Jane Jones, Rhydfadog. Croesawodd yn gynnes bawb yn ôl ac hefyd anfonwyd ein cofion cynnes at y cyn-aelodau sydd mewn cartrefi preswyl, y rhai sy'n wael ac yn methu dod ar hyn o bryd.

Dymunwn fel aelodau ddiolch i'r canlynol am eu rhoddion hael: Mr Alun Wyn Evans, Mr Edwin Evans, Mrs Dilys Pritchard, Mrs Doris Owen, Mrs Valmai Williams, a theulu y ddiweddar Mrs Betty Wyn Davies a fu yn aelod ffyddlon o'r Clwb. Diolch o galon ichwi i gyd.

Rhoddwyd y te gan Mrs Edna Coles a Miss Jean Moeller, ac enillwyd y raffl gan Mrs Evelyn Jones. Mae croeso cynnes i eraill o'r pentref i ymuno â ni — yn wŷr a gwragedd — dowch atom.

Y Seindorf: Daeth y Seindorf i'r brig unwaith eto yn Eisteddfod Genedlaethol Bro Colwyn. Roedd naw o fandiau yn cystadlu gyda Seindorf St Athan yn ail a Seindorf Trefor yn drydydd. Roedd yn ddiwrnod arbennig i Dafydd Wyn Williams, arweinydd y Seindorf, gan mai dyma'r tro cyntaf iddo arwain y Seindorf mewn cystadleuaeth. Llongyfarchiadau i Dafydd ac i'r Seindorf.

Yn awr maent yn ymarfer ar gyfer y gystadleuaeth fawr a gynhelir yn Llundain ddiwedd mis Hydref. Fel rhan o'r ymgyrch i godi arian fe gynhelir Noson Goffi yn Y Ganolfan, nos Wener, 6 Hydref. Dowch yn llw i helpu'r Seindorf.

Mae tymor newydd yr ieuencid wedi dechrau ac os oes yna blentyn yn ardal yr Eco yn yr oedran 7 neu hŷn sydd yn awyddus i ddysgu chwythu offeryn pres yna cysyllter â Hefin Jones ar (01286) 674760.

Ddechrau'r mis, yn Manceinion, cynhaliwyd un o gystadlaethau pwysicaf calendr y bandiau pres Prydain, sef y 'British Open' a braint oedd gweld dau o gyn-aelodau — Eilir Williams ac Iwan Williams — yn cymryd rhan amlwg iawn ym Mand Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog a ddaeth yn drydydd allan o 23 o fandiau.

Llongyfarchiadau i Dylan Wyn Williams ar ennill gradd B.Sc. anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol John Moores, Lerpwl.

Wrth inni longyfarch aelod sydd newydd orffen ei astudiaeth fe ddymunwn yn dda i ddau aelod arall sy'n dechrau ar eu gwaith coleg, sef Martin Llywelyn Williams a Gavin Saynor, y naill ym Mhrifysgol Bangor a'r llall yng Ngholeg Cerdd Salford.

Diolchiadau:

Dymuna Blodwen Parry, 6 Bro Deiniol, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau ymhell ac agos am yr holl gardiau, galwadau ffôn, anrhegion, arian a'r blodau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac wedi iddi dod gartref. Diolch yn arbennig i staff Ward Prysor yn Ysbyty Gwynedd am eu gwaith diflino.

Dymuna Mrs Maggie Griffiths, Rhydychen (Maes Eilian gynt), ddiolch o galon i drigolion ardal Deiniolen, Dinorwig a Phenisarwaun am y llu cardiau, anrhegion a'r

dymuniadau da a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeg a phedwar ugain ar yr ail o Fedi. Diolch yn fawr iawn.

Cynhelir Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi Deiniolen a'r Cylch yn Ffestri Capel Ebeneser, Deiniolen, dydd Sadwrn, 28 Hydref 1995 am 12 a 6 yr hwyr. Beirniaid Cerdd: Miss Delyth Rees, Llangefni; Beirniad Adrodd: Mrs Rhiannon Alun Evans, Tregarth.

Y Gymdeithas Lenyddol: Mae'r Gymdeithas Undebol wedi ail gychwyn erbyn hyn. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf yn Y Caban nos Lun, Medi 25, yng nghwmni Lleisiau'r



Plant y Dosbarth Derbyn yn Ysgol Gwaun Gynfi.

CÔR CYMYSG LLANBERIS c.1935



Cawsom fenthg y llun hwn o Gôr Cymysg Charles Owen Llanberis, gan Mrs Maria Pritchard. Tynnwyd y llun o flaen Dôl Afon, Llanberis, oddeutu mis Awst 1935. Mae'r rhan fwyaf o'r enwau yn hysbys i Eifion a Gwyneth Roberts, Becws Eryri. Ai cywir y dybiaeth mai Mrs Maria Pritchard yw'r unig aelod o'r Côr sy'n dal yn fyw?

Gweunydd dan arweiniad Einir Wyn Owen. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn FESTRI EBENESER, am 7 o'r gloch, nos FERCHER, Hydref 25. Cofiwch am y noson a'r lleoliad gwahanol ar gyfer yr un cyfarfod hwn pan fydd Mrs Nesta Jones yn dod atom i sôn am yrfa ei mab Bryn Terfel. Dylai fod yn noson ddifyr iawn.

Cyngor Eglwys Deiniolen: Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn festri Ebeneser, nos Lun, Medi 11. Etholwyd Mrs Margaret Griffith yn llywydd, Mr Tydfil Jones yn ysgrifennydd a Mrs Eileen Hughes yn drysorydd. Trefnwyd cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn Eglwys Llandinorwig, nos Lun, Hydref 9, pan geir Cyfarfod Diolchgarwch.

Cefnywaun ac Ebeneser: Mae'r Ysgol Sul Unedig wedi ail ddechrau wedi gwyliau'r haf. Bydd oedfa deuluol gynta'r tymor newydd yn cael ei chynnal yn Ebeneser am 10.30 o'r gloch fore Sul, Hydref 1. Estynnir croeso cynnes i ymuno â ni yn ein hoedfaon undebol bob Sul, am 10.30 o'r gloch yn Ebeneser ac am 5 o'r gloch yng Nghefnywaun.

CERDDED TRWY'R STORM



Ymchwil y Galon: Dymuna Bett Hughes ddiolch yn fawr iawn i'r wyth o ferched Llanberis a gerddodd i lawr o gopa'r Wyddfa ddydd Sadwrn, Awst 26, â'r tywydd yn stormus iawn. Diolch hefyd i bawb a'u cefnogodd i godi £600 at Ymchwil y Galon (Cangen Caernarfon) ac i Jean yn y Prince of Wales am y baned a'r bwyd ar ôl cyrraedd yn ôl.

Capel Jerusalem: Mewn cyfarfod o'r Gyfeillach ar ddydd Mawrth, 12 Medi, o dan gaderyddiaeth Mr Irfon Ellis, cafwd sgwrs ddiddorol gan Mrs Nellie Williams am hen drigolion y Clegir a'r capel y bu hi a'i theulu yn aelodau ohonno; a Hugh R. Jones yn sôn am Waun Cwm Brwynog a Chapel Hebron. Cafwyd rhagor o sgwrsio dros baned a bisgedi. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 3 Hydref, pryd y disgwylir aelodau o Nant Peris i'n hatgoffa o'r 'Nant' fel ag yr oedd. Bydd croeso cynnes i bawb.

Undeb y Mamau: Wedi seibion yr haf ail-gychwynwyd y cyfarfod misol Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Padarn bawn Mawrth, 12 Medi. Gweinyddwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaidd gan y Rheithor, y Parchg Philip Hughes, a chafwyd darlenniadau o'r Beibl gan Mrs Dilys Philips a Mrs Audrey Evans. Yn dilyn cafwyd cyfarfod busnes ac yna te blasus wedi ei drefnu gan Mrs Jean Roberts a Mrs Dilys Philips. Diolchwyd i'r ddwy ac hefyd i'r Rheithor gan Mrs Betty Humphreys ac eiliwyd gan Miss Cathleen Pritchard. Enillwyd y raffl oedd Mrs Muriel Morris a Mrs Kathleen Williams.

Ar y Copa: Ar 2 Medi trefnwyd trip i ben y Wyddfa a chafwyd diwrnod gweddol braf. Yng nghwmpeini dros gant o bobl cafwyd gwasanaeth ar y copa o dan arweiniad Esgob Bangor, y Gwir Barchedig Ddr Barry C. Morgan; Deon y Gadeirlan, y Gwir Barchedig Erwyd Edwards; a Rheithor Llanberis, y Parchg Philip Hughes. Canwyd dwy emyn a darllenwyd Salm 121. Traddodwyd y Fendith gan yr Esgob. Dymuna'r trefnwyr, sef Mrs Audrey Evans a Mr Brian Wakelaw, ddatgan eu diolch i bawb a gefnogodd y trip. Gwnaed elw o £404 tuag at Gronfa Tŵr yr Eglwys.

Llongyfarchiadau i Carys, 87 Maes Padarn gynt, a Mark ar enedigaeth eu mab bach, David Hugh, ar 4 Medi. **Priodas:** Ar 29 Gorffennaf yng Nghapel Coch priodwyd Wendy, merch Mr a Mrs Alan Tudor Jones, 1 Stryd-y-dŵr, Llanberis, â Kevin Robert Williams, mab Mr R. R. Williams, Porthmadog, a Mrs E. M. Williams, Bangor. Y forwyn oedd Gillian V. Asodia, a'r gwas oedd

DRAENOG



Byddai unrhyw bêldroediwr proffesiynol yn falch o gael gwahoddiad i ymuno â'r garfan genedlaethol. Wedi clywed bod Bobby Gould, rheolwr newydd tîm Cymru, yn cysylltu â chwaraewyr newydd, roedd cyffro mawr pan ddaeth llythyr i Lanberis yn gwahodd 'M. LLOYD WILLIAMS' i'r garfan. Dim ond wedi craffu'n fanwl ar y llythyr y sylweddolwyd mai MANON, ac nid MARC, oedd yn cael gwahoddiad — a hynny i Dîm Pêl-droed Merched Cymru. Mae'r Draenog yn llongyfarch y chwaer ac yn edrych ymlaen at weld y brawd yn cael llythyr ei hun yn fuan iawn.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390



Plant dosbarth Mrs Clarke, Ysgol Dolbadarn, wrth eu bodd yn yr ysgol fawr.



Wendy a Kevin.

Geraint Pritchard. Bu'r wledd briodas yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Diolchiadau:

Dymuna Carys a Mark ddiolch o galon i'w teulu a ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth David Hugh. Diolch yn fawr.

Dymuna Nicola Baylis ddiolch i bawb am yr holl anrhegion, cardiau ac arian a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 21 oed ar Awst 31. Diolch yn fawr.

Dymuna Gwilym a Mona Jones, 17 Dôl Elidir, ddiolch am bob cerdyn ac anrheg a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Rhuddem. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Kevin a Nia ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r cardiau ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna Kevin a Sioned Jones ddiolch i'r ddau deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas ar Orffennaf 29. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Dymuna Wendy a Kevin ddiolch yn fawr iawn i'w perthnasau, ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion, cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur eu priodas.

Capel Coch: Aeth deg o blant yr Ysgol Sul i aros yng Ngholeg y Bala fwrw'r Sul, Medi 22-24. Cafwyd amser da yn dysgu am 'Arwyr Duw'. Gan mai hwn oedd y cwrs olaf i Mrs Delyth Wyn Davies, a fu'n Swyddog Plant yn y Coleg ers rhai

blynnyddoedd, ei arwain cyn dechrau ar ei swydd newydd, cafodd y plant barti arbennig ar y nos Sadwrn.

Y Gymdeithas Lenyddol: Bydd y Gymdeithas Undebol yn cael ei chynnal yn Ffestri Capel Coch yn ystod y gaeaf. Bydd y cyfarfod cyntaf am 7 o'r gloch, nos Fawrth, 3 Hydref, pan geir darlith gan Mr John Hugh Hughes.

Ysgol Dolbadarn: Croeso cynnes i'r plant a ddaeth atom am y tro cyntaf ym mis Medi. A chroeso hefyd i'n hathrawes newydd, Miss Bethan Wyn Owens, a'n gweinyddes newydd Miss Susan Williams. Gobeithio bydd y ddwy ohonynt hwy a'r plant yn hapus yn ein plith. Bu plant dosbarth Mr ap Elwyn yn yr Amgueddfa Lechi ddydd lau, Medi 21, a chawsant eu tywys ar daith gan Mr Dafydd Roberts. Bydd plant dosbarth Mrs Humphreys a Mrs Pierce yn cael cyfle'r wythnos hon i ymweld ag Amgueddfa Eryri i weld arddangosfa o luniau Picasso. Byddwn yn casglu bocsus esgidiau yn llawn o anrhegion i blant Bosnia eleni eto fel rhan o ymdrech YMGYRCH PLENTYN Y NADOLIG.



Nia Bryan Jones a Stephen D. Russell a briodwyd yn Capel Coch, Llanberis, Gorffennaf 29.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

'Un funud fach ...' ANFONWCH FOCS

Gawsoch chi bâr o esgidiau newydd yn ddiweddar? Ydi'r bocs gwag yn hel llwch a llanast yn y tŷ acw? Beth am gael gwared ohono drwy anfon anrheg Nadolig i rywun yn Bosnia?

Mae'r elusen Ymgyrch Plentyn y Nadolig wedi lansio'r apêl flynyddol am focus esgidiau wedi eu llenwi ag anrhegion i blant yn Bosnia, Croatia, Romania, Hwngari a Rwanda. Sefydlwyd yr elusen gan Grîstnigion o ardal Wrecsam ryw bum mlynedd yn ôl, ac mae'r cynllun bocsus esgidiau wedi hen ennill ei blwyf erbyn hyn. Anfonwyd 230,000 bocs y llynedd a gobeithir anfon 250,000 eleni.

Bydd llawer o eglwysi ac ysgolion yr ardal hon yn cefnogi'r apêl eleni eto trwy roi anrhegion fel sebon, brws a phâst dannedd, pensiliau a phapur sgwennu, teganau bychain a siocled yn y bocsus i'w hanfon i'r plant a'r bobol yn Bosnia a'r gwledydd eraill.

Mae'n bosib y bydd cyfle i chi gefnogi'r apêl eleni trwy eich ysgol neu eglwys. Rwy'n siŵr y bydd yna brysurddeb mawr yn ystod y mis nesaf yma. Ac mae'n braf meddwl y bydd plentyn yn agor y bocs ac yn gwerthfawrogi'r rhoddion a anfonwn. Mae'n anodd dychmygu'r angen am y pethau mwyaf sylfaenol ymhlith plant a phobl sy'n dioddef am wahanol resymau yn y gwledydd hyn.

Os na chlywch yn lleol am yr apêl, mae croeso i chi gysylltu â mi am ragor o fanylion ac am label arbennig i'w roi ar y bocs. Bydd angen anfon y bocsus i Wrecsam erbyn Tachwedd 9.

JOHN PRITCHARD
Cilfynydd, Llanberis
Ffôn: (01286) 872390

Llongyfarchiadau i Rheon Roberts, Arlys, Stryd y Ffynnon, sydd wedi ei ddewis i fod yn un o hogia'r bêl (*ball-boy*) ar gyfer gêm Cymru yn erbyn yr Almaen yng Nghaerdydd ym mis Hydref. Dewiswyd Rheon yn un o'r ddau a fydd yn cynrychioli Cynghrair Bêl-droed Gwryfai wrth y gwaith yn y gêm fawr hon ym Mhencampwr-iaeth Ewrop. Gobeithio y cawn ni'r hanes yn llawn erbyn y rhifyn nesaf.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Geni: Mae'n bechod garw fod Ysgol y Nant wedi cau gan fod llawer o fabanod wedi eu geni yma'n ddiweddar. Ar Fedi 8 ganwyd baban cyntaf i lola a Brian Owen, 6 Nant Ffynnon, sef mab bychan, Robat Henri. Hefyd ar Fedi 16, ganwyd merch fach i Ann a Jim Cumberton, sef Sioned, chwaer fach i Alice. Llongyfarchiadau calonnog i'r ddau deulu.

Diolch: Dymuna Brian a lola Owen ddiolch i berthnasau a ffrindiau am yr anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Robat Henri.

Dymuna Ann a Jim Cumberton ddiolch i berthnasau a ffrindiau am yr anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch Sioned.

BRYNREFAIL

Mrs Lqwr Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Sefydliad y Merched: Nos lau, Medi 7fed, bu'r gangen, ynghyd ag aelodau cangen Llanberis, ar ymweliad â changen Sefydliad y Merched Menai, Y Felinheli. Treuliwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs Nesta Jones, Pantglas, yn adrodd hanes gyrfa ei mab, Bryn Terfel.

Nos Lun, Medi 18fed, cyfarfu'r gangen leol yn y Festri dan lywyddiaeth Mrs Pat Jones. Y gŵr gwadd oedd Mr Robin Jones, Llanfairpwll, pennaeth Hyfforddiant Gwynedd. Rhoddwyd sgwrs ddifyr ganddo yn olrhain hanes llwyau caru ac arddangos enghreifftiau o'i waith. Paratowyd y baned gan Mrs Betty Owen. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Pat Jones gan Mrs Jennie Roberts. Trefnwyd tîm eto eleni i gymryd rhan yn ymryson dartiau. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Hydref 16eg.

Cymdeithas y Chworiydd: Cyfarfu'r Gymdeithas yn y Festri, nos Fawrth, Medi 12fed, dan lywyddiaeth Mrs Ifanwy Jones. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mrs Rhian Jones gyda sylwadau diddorol am Sant Christopher. Croesawodd y

llywydd, Miss Eleri Roberts, Y Groeslon, sy'n dilyn galwedigaeth fel Gweithiwr Cymunedol Eglwysig yn Noddfa, Caernarfon. Rhoddodd adroddiad diddorol am gefndir y Ganolfan, am natur y gwaith a'i hamrywiol ddyletswyddau yn gymdeithasol a chrefyddol. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan Miss Alice Williams. Trefnwyd lluniaeth gan Mrs Gwyneth Evans a Mrs Betty Owen. Bydd y cyfarfod nesaf, yr olaf y tymor hwn, nos lau, Hydref 5ed, pryd y disgwylir Mr David Williams, Bethel, i roi sgwrs. **Eglwys M.C. Brynrefail:** Bydd trefn yr oedfaon Sabothol fel a ganlyn am y Suliau nesaf — Hydref:

- 8. Parchg Michael Thomas, Bangor (5.30)
 - 15. Parchg John Glyn, Waunfawr (10)
 - 22. Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon (10)
 - 29. Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (5.30)
- Tachwedd:
- 5. Mr Merfyn Jones, Caernarfon (5.30)

Cynhadledd Cymorth Ariannol ac Ymarferol i Gyrff Gwirfoddol

Bydd cyfle ym mis Hydref i fudiadau gwirfoddol a chymunedol trwy Ogledd a Gorllewin Cymru glywed mwy am y cyllid a'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt.

Mae'r Asiantaeth Fenter — Antur Dwryd Llŷn a Cymad — y sefydliad sydd yn gyfrifol am redeg rhaglen *Leader 11* yr Undeb. Ewropeaidd yn Arfon, Dwyrfor a Meirionydd wedi dod ynghyd i drefnu deuddydd o gyfres o gyflwyniadau seminar gan amrywiaeth o sefydliadau all gynnig arian neu gymorth ymarferol i fudiadau gwirfoddol.

Mae'r rhain yn cynnwys cronfeydd y Loteri, Awdurdodau lleol, Pwyllgor Tywysog Cymru,

Canolfan Cyd-weithredol Cymru, Leader, Trwdos Bank, Partneriaeth De Gwynedd, Cyngor Celfyddydau Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri, Cyngor Chwaraeon Cymru, Plant Mewn Angen, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn ogystal â gwybodaeth am gyllid cymunedol Ewropeaidd newydd.

Yn ôl Rheolwr Datblygu Cymunedol Antur Dwryd Llŷn, Glenda Murray, mae llawer o fudiadau gwirfoddol yn anymwybodol o'r ffynonellau cyllid a'r cymorth ymarferol sydd ar gael iddynt.

"Rydym felly, wedi gwahodd cynrychiolwyr o'r sefydliadau sy'n weithgar yn cefnogi grŵpiau gwirfoddol sy'n amrywio o bwlgorau neuaddau pentref a caeau chwarae, i fusnesau cymunedol. Bydd rhywbeth i bawb, bydd pob cyflwyniad a sesiwn cwestiwn ac ateb oddeutu 45 munud i awr a bydd cyfle i aelodau o'r gynulleidfa sgwrsio'n anffurfiol â'r cyflwynwyr wedyn."

Cynhelir y seminarau ar y 5ed a'r 6ed o Hydref yn y Ganolfan Farchnata, Porthmadog. Disgwylir ymateb brwd felly dylai unrhyw unigolyn neu sefydliad sydd â diddordeb mewn cadw lle neu angen rhagor o wybodaeth gysyllty â Carol Jones ar 01758 701394. Mae'r Gynhadledd yn agored i bob sefydliad gwirfoddol neu unigolion â diddordeb trwy Ogledd a Gorllewin Cymru.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Plygu'r Eco: Diolch i'r criw ffyddlon ddaeth ynghyd i blygu'r Eco ar nos lau, 7 Medi, er mai siomedig iawn oedd y nifer a drodd i mewn. Gobeithio y gwelwn fwy yn dod ymlaen i wneud y gwaith y flwyddyn nesaf.

Y Fainc: Gosodwyd main yn Fachwen ar ddechrau'r haf gan Gyngor Cymuned Llanddeiniolen, ar y cyd â Chyngor Dosbarth Arfon, ond derbyniwyd y newyddion trist ychydig wythnosau yn ddiweddarach bod rhywun, neu rhywrai, wedi ei dwyn o'r safle. Trist yw meddwl nad oes dim yn cael llonydd y dyddiau hyn ac o'r herwydd nid yw'r Cyngor Cymuned mewn sefyllfa i osod mainc arall yn ei lle.

Gŵyl Ddiolchgarwch: Flwyddyn yn ôl caewyd Eglwys St Mair ac ers hynny y gyrchfan addoli i'r aelodau yw Eglwys Crist Llandinorwig. Eleni cynhelir Gŵyl Ddiolchgarwch ar ddydd Sul, 15 Hydref. Ceir mwy o fanylion yn ddiweddarach. Cyn hynny fe gynhelir Cyngerdd Gŵyl Mihangel yn Eglwys Crist ar nos Wener, 29 Medi, am 7.30 o'r gloch. Bydd croeso i bawb, o bob enwad, i'r cyngerdd arbennig hwn.

Y Gymdeithas Lenyddol Undebol: A ninnau bellach yn wynebu tymor y gaeaf tybed a oes cynlluniau ar y gweill i gynnal cyfarfodydd y Gymdeithas yn ystod y misoedd nesaf? Bu'r Gymdeithas yn cynnig rhaglen amrywiol a diddorol iawn dros y blynnyddoedd. Byddem yn

falch o gael gwybod beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf er mwyn i ni gael nodi hynny yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Apêl: Cofiwch fy mod, fel eich gohebydd, yn dibynnu arnoch chi bobl dda Dinorwig i ddod a hanesion i mi ar gyfer eu cynnwys yn yr Eco bob mis. Mae un neu ddau ohonoch yn barod iawn i wneud hynny, ond beth am y gweddill ohonoch? Mae yna adegau pan fo'r deunydd yn brin iawn, felly, beth am sicrhau llond sach o straeon i mi ar gyfer y rhifyn nesaf.

Am Wasanaeth Fframio Lluniau Tystysgrifau Tapestri am brisiau rhesymol
ELWYN PRITCHARD
Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun — Sadwrn
10.00 — 4.30
Ffôn: Llanberis
870922

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR**. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr Felly, pa gar bynnag ydych **CHWI** yn ei yrru, o Audi i Zastava



GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan Petrol neu Diesel Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £££ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN CAERNARFON (0286) 673559



Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN — HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412

CHWILOTA

HANES

MOSES SHIP



Mae'n ymddangos fod y paragraff byr yn gwneud ymholiadau ynglŷn â chymeriad o'r enw 'Moses Ship' yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco* wedi creu cryn chwylfrydedd ymysg trigolion hynaf Llanrug. Deallaf fod pnawniau wedi eu treulio yn cysylltu ar y ffôn rhwng y naill a'r llall yn holi a hel atgofion. Roedd pawb, mae'n ymddangos, yn cofio'r ffaith ei fod yn tyfu mefus yn ei ardd ffrynt. Gyda llaw, 'Llys Forgan' oedd enw ei gartref, ac nid 'Llwyn Onn' fel y dywedais yn y rhifyn diwethaf.

Gan Mrs G. M. Jones, Y Dalar Deg, Llanrug, y cefais gyfres o nodiadau am y cymeriad hwn, ond mae amryw o rai eraill hefyd wedi bod yn fy stopio ar y stryd yn ychwanegu pytiau at yr hanes. Efallai y cawn yr hanes yn llawn rhyw ddiwrnod. Am y tro, dyma fodloni ar y wybodaeth a gasglwyd gan nifer o drigolion Llanrug.

Roedd Moses Ship yn ymwelydd cyson â Thyddyn Rhuddallt (cartref Mrs G. M. Jones), ac mae'n debyg mai oddi yno y cafodd y planhigion mefus (roedd Tom Jones, Tyddyn Rhuddallt, wrth gwrs, yn arddwr o fri). Roedd yn gefnder i nain Mrs G. M. Jones, sef Mary Pierce. Daeth y teulu'n wreiddiol o Fachynlleth, ac fe'i ganwyd yn y Garsiwn, rhes o fythynnod sy'n dal ar eu traed yn nhref Machynlleth heddiw. Does dim sicrwydd pryd na pham y symudodd y teulu i fyw i'r 'Ship', Pontrhythallt. Tŷ tafarn oedd y 'Ship' ar un cyfnod, ond efallai ei fod wedi peidio â bod yn un erbyn i'r teulu o Fachynlleth gyrraedd yno. Roedd Moses Ship yn frawd i Samuel Jones, Felin Lechi Glandinorwig (yr un a roes ei enw i Allt Sam), y cafwyd ei hanes eisoes yn yr *Eco* rai blynyddoedd yn ôl.

Fel hyn y mae Mrs Jones yn adrodd yr hanes:

'Moses Morgan Jones oedd ei enw, ac ef roddodd yr enw "Llys Forgan" ar y tŷ. Roedd yn ŵr

bonheddig iawn; mae'n rhaid fod rhywfaint o "fwynder Maldwyn" wedi ei ddilyn o Fachynlleth i'r Ship. Person neu giwrdd oedd o, a gwisgai het fflat, nodweddiadol o bersoniaid ers talwm. Roedd golwg digon gwael a thenau arno, fel petai'n bwyta gwellt ei wely. Byddai'n aml yn gwisgo menig heb fysedd: rhywun wedi eu gwau iddo mae'n debyg. Deuai i lawr i Dyddyn Rhuddallt yn aml, a chât de iawn gan Mam. Credaf ei fod yn ddiwylliedig iawn, a threuliai gryn amser yn sgwrsio gyda'm tad. Roedd ganddo ddiddordeb mawr hefyd mewn planhigion — dyna, mae'n debyg, sydd i'w gyfrif am y mefus. Byddai'n sôn yn aml hefyd am rhyw "focs du" oedd ganddo gartref; bocs o lyfrau a oedd wedi ei addo i'm tad. Fodd bynnag aeth yr hen greadur yn wael ac am mai hen lanc ydoedd aeth i aros at deulu cefnder fy mam yng Nghaeathro. Yno y bu farw, ac fe'i claddwyd ym medd y teulu ym mynwent Llanrug.'

Mae'r bedd i'w weld yn yr hen fynwent yn Llanrug, gyda rheiliau o'i amgylch. Yn Saesneg mae'r arysgrif, ac mae'n darllen fel hyn: *'In memory of Rev. M. Morgan Jones, Llys Forgan, Llanrug. Died 1924 aged 84 years. Also, his parents, uncles and aunts.'*

YSGOL GLANMOELYN

Daeth mwy o atgofion am Ysgol Glanmoelyn, Llanrug, i law gan Mr Elwyn Jones, Dunstable

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Y plant bach newydd a gychwynnodd yn yr Ysgol ar ddechrau Medi.

Diolch: Dymuna Nia Wyn, 17 Dôlafon, ddiolch i bawb am eu dymuniadau da ac am y cardiau a dderbyniodd ar ei llwyddiant ar ennill ei gradd B.A. (Anrhydedd) yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

Ysgol Cwm-y-glo: Ar ddechrau blwyddyn ysgol braf oedd cael croesawu deg o blant bach pedair mlwydd oed i'r Dosbarth Derbyn. Bellach mae Ceri, Huw, Chelsey, Elin, Cheryl, Delyth, Liam, Alan, Leon a Jodie wedi setlo'n hapus iawn yn ein plith.

Daeth saith o blant eraill i fyw i'r ardal yn ystod yr haf, sef Amelia, Sara, Kane, Joshua, Nadir, Zack a Lilly Ann. Gobeithio y byddant yn

hapus iawn yng Nghwm-y-glo.

Dymuniadau gorau i Miss Llinos Fretwell, cymhorthydd y babanod ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Ddiwedd mis Awst, ganwyd chwaer fach i Kim Cullen, bl. 6. Llongyfarchiadau i chwi fel teulu.

Bydd Bethan Hughes o Ysgol Brynrefail gyda ni am ddiwrnod bob wythnos o'r tymor hwn fel rhan o'i chwrs Gofal Plant. Croeso mawr iddi hithau.

Os oes rhywun yn dymuno ymaelodi â Chlwb yr Ysgol, mae croeso i chwi gysylltu â ni. Am £1 y mis mae cyfle i ennill dwy wobwr a thrwy hynny gefnogi Cronfa'r Ysgol.



Genethod Ysgol Glanmoelyn a symudwyd i'r Ysgol Ganol, Llanrug, pan agorodd am y tro cyntaf.

(Fron, Llanrug gynt). Ef hefyd anfonodd y llun sy'n dangos y genethod a symudwyd o Ysgol Glanmoelyn pan agorwyd yr 'ysgol newydd', sef Ysgol Ganol, Llanrug (yr Ysgol Gynradd bresennol). Gall Mr Jones enwi ychydig o'r genethod sydd yn y llun, sef Mary Eirlys Williams, Derlwyn; Megan Williams, Tany-coed; a Sally Gwyneth Jones (Rawson), sef diweddar chwaer Mr Jones. Y Prifathro yn y llun yw Mr G. T. Roberts, Tŷ'r Ysgol, ac Erw Gain yn ddiweddarach.

Tybed a oes bosib i ddarllenwyr yr *Eco* fedru enwi pob un o'r genethod sydd yn y llun?

* * * *

Fel yr oedd yr *Eco* ar fin 'mynd i'w wely' daeth atgofion am 'chwaneg o Eisteddfodau'r Urdd, a gwybodaeth am

ddosbarth arbennig yn Ysgol Brynrefail, a rhai o'r cyn-ddisgyblion a gafodd groeso cynnes yng nghartref eu cyn-athrawes. Mwy o'r hanes, a lluniau, yn y rhifyn nesaf.

Unrhyw ymholiad neu bwt o hanes o'r gorffennol? Peidiwch oedi. Cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. Ffôn: (01286) 673515.

"Nos Sadwrn byth ers hynny
Rwyf adre efo rheulu...."

Bydd **HEL STRAEON** yn ôl ar S4C bob nos Sadwrn o Hydref 21 ymlaen.

**OES YNA STORI WERTH EI DWEUD
YN EICH ARDAL CHI?**

Ffoniwch 01286 677595 neu
sgwennwch at Hel Straeon, Gronant,
Caernarfon, Gwynedd LL55 1NS.



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

Y BOM gan Y Gwalch

Roedd Wil Griffith yn gwybod yn iawn mai rhywun eisiau rhywbeth oedd yno pan glywodd gnoch ar y drws yn hwyr rhyw noson dywyll. Fyddai neb yn dod ar ei gyfyl fel arall, ond Dilys yr 'Home Help' ac am gyflog roedd honno yn gwneud.

Yn groes i bob cyngor i hen wr yn byw ar ei ben ei hun, aeth Wil i agor y drws, ond gan ei fod wedi gwrthod pob cynnig i osod lamp y tu allan, rhag gwastraffu golau, doedd o ddim doethach pwy oedd yno prun bynnag.

'Ydach chi'n gwobod rhywbath am foms?' meddai rhyw lais bâs.

Ond roedd Wil yn ddigon hunanfeddiannol, 'Ella baswn i, taswn i'n deall pwy sydd isio'r wybodaeth,' meddai.

Cymro oedd yno beth bynnag; pe bai ganddo fo unrhyw reswm dros roi mwy o ffydd yn y rheini, mwy na rhyw hil arall, ond roedd hi'n amlwg nad oedd y dyn wedi cael hyfforddiant mewn rheolau syml cymdeithas, gan y bu'n rhaid i Wil ofyn iddo yn blaen pwy oedd o.

'Mi rydw i wedi dŵad i'r ffarm,' meddai'r dyn heb gynnig enw.

'O, Cae Llydnod?'

'Ia, ac mae 'na fom yno, yn y cwt allan.'

'Tewch â deud,' meddai Wil, ddim yn siŵr erbyn hyn prun ai'n syth o'r dafarn ynteu dros y Clawdd Mawr roedd y dyn wedi dod.

'Wel, mi fydd yn well i chi ddŵad i mewn,' meddai yn y diwedd.

Yr oedd ar hwylio i'w wely a'r tân ar i lawr, ond taflodd bric arno, a chafodd well golwg ar y dyn. Un main, tal oedd oe, anodd dweud ei oed heb edrych ei geg.

Roedd Wil wedi clywed straeon amdano gan Dilys, oedd yn cludo'r newyddion lleol; o ddewis yn ddrwg. Roedd yna ryw Sais wedi mynd dros ei ben hefo'r pris cyntaf a ofynnwyd am y ffarm, ac yr oeddent wedi mynd i gyfraith faith a chostus. Roedd Wil yn gweld cyfle i fynd yn ddyfnach i'w fasedg, ond yr oedd y dyn yn fwy pryderus o lawer am ei fom.

'Sut un ydi hi?' gofynnodd Wil o'r diwedd rhwng difri a chwarae, a chafodd ddisgrifiad manwl.

'I beth ydach chi'n dŵad ata i?' gofynnodd wedyn.

'Roeddwn i'n meddwl y'ch bod chi wedi bod yn y rhyfal ac yn gwobod am betha fel'na.'

'Dim ond gwobod sut i osgoi cael fy chwythu ganddyn nhw,' meddai Wil, ac aeth yn ei flaen i ddweud fel yr oedd yn gweithio mewn ffatri ffrwydron yn Birmingham. 'Ond fasa waeth i mi fod yn y rhyfal go-iawn ddim,' ychwanegodd gan agor ei law i ddangos pen tri bys oedd ar goll, ond doedd gan y dyn fawr o ddiddordeb yn hynny chwaith.

'Ddowch chi hefo fi i'w gweld hi?' meddai.

'Radag yma o'r nos?' meddai Wil. 'Ma'n rhaid ei bod hi wedi bod yno ers blynnyddoedd.'

'Digon posib, ond mi rydach chi'n clywad am hen foms fel'na yn ffrwydro yn ddi-rybudd,' meddai'r dyn.

Y diwedd fu i Wil gymryd ei berswadio. Rhywbath i basio'r amsar, chwedl yntau wrth Dilys trannoeth pan ofynnodd honno beth oedd ar ei ben o.

Ar fwrdd llechen ym mhen draw'r cwt yr oedd y bom yng nghanol sbwriel. Daliodd y dyn olau o ffrâm y drws ac aeth Wil i mewn. Rhyw daldra potel lefrith oedd hi, yn drom ac yn rhwdlyd, a rhyw ffigurau wedi eu marcio ar ei phen ar gylch i'w hamseru.

'Debycach gen i mai shell ydi hi,' meddai Wil. 'roedd y commandos hyd y fan'ma amsar rhyfal. Ella mai ar ôl y rheini mae hi. Ei chladdu hi fydda ora i chi.'

Ond doedd y dyn ddim yn fodlon ar hynny.

'Be tasa rhyw blant yn cael gafael arni,' meddai. 'Mi fydd yn well i ni fynd i ddeud wrth y polis.' Ac yr oedd yn edrych yn awgrymiadol ar fysedd Wil. 'Ella

y dowch chi hefo fi.'

Doedd yr un o'r ddau wedi sylweddoli bod y tŷ plismon lleol wedi ei gau a'r trigolion wedi eu gadael ar drugaredd yr annwariaid brodorol.

Bu'n rhaid iddynt ffonio'r pencadlys, a hynny o dŷ Wil gan nad oedd y ffôn wedi ei gysylltu yn y ffarm. Rhyw Sais atebodd, a chafwyd trafferth i'w rhoi ar ddeall ble roedd y lle, a phan soniwyd am y bom fe'u bygythiodd hwy â chyfraith am wastraffu amser yr heddlu. Ar ôl ugain munud o siarad croes, addawodd y dyn anfon rhywun i dŷ Wil, gan mai hwnnw oedd y cyntaf ar ei ffordd.

Disgwyliodd Wil awr ar ôl awr, a phan ddaeth yr heddlu yn y diwedd roedd hi bron yn olau dydd, ac yr oeddent ar ffurf rhyw lodes, oedd yn ymddangos yn fwy pryderus ynghylch osgo ei het a gosodiad ei stoc na ffrwydron o unrhyw fath. Aeth Wil gyda hi i'r ffarm a bu'n rhaid deffro'r perchennog a oedd erbyn hyn wedi anfon ei deulu i dŷ ei fam yn Nyffryn Conwy rhag iddynt gyrraedd yno yn sgyrion yn erbyn eu hewyllys.

Pan aeth yr hogan i'r cwt allan doedd dim angen lamp, gan fod yna ddigon o olau dydd yn dod drwy'r ffenest gefn, iddi weld y bom, ond doedd hi ddim yn awyddus i fynd yn nes ati na lled y bwrdd llechen, ond gofynnodd i Wil â oedd yna bowdwr ynddi.

Ar ôl iddo yntau ddweud ei fod yn siŵr y bod, aeth yn ei hôl i'w char am rai munudau a chlywsant hi yn siarad ar y radio. Pan ddaeth yn ei hôl, dywedodd fod y pencadlys wedi cysylltu â'r Peirianwyr Brenhinol yn yr Amwythig, ac yr oedd y rheini am anfon rhywun rhag blaen i ddelio hefo'r bom. Yn y cyfamser roedd y cwt i fod dan glo a neb i fynd ar ei gyfyl.

Hefo'r wybodaeth honno aeth Wil adref yr eilwaith, ond nid y tro yma i ddisgwyl hyd yn oed wrth y frenhines. Ar ôl gwrando ar y newyddion chwech ar ei radio-ochr-gwely, syrthiodd i drwmgwsg y bore. Cnocio taer Dilys a'i deffrodd yn fuan ar ôl naw, ac yr oedd ganddi newydd syfrdanol.

'Be' ddiawl sy' wedi digwydd i fynd y lôn bach gefn 'na? Mae'r polis wedi ei blocio hi bob pen. 'Wn i ddim sut y medra i fynd at yr hen wraig bach 'na yn tai Cledwyn.'

'Taw â deud,' meddai Wil, ac am unwaith yn ei oes llwyddodd i ddweud newydd wrth Dilys nad oedd hi'n ei wybod yn barod.

Roedd Dilys wedi gadael ei gŵr, neu fo wedi ei gadael hi; pwy bynnag gafodd y fargen orau, ac yr oedd ganddi ddigon ar ei phlât ei hun heb fynd i olchi rhai pobl eraill. Roedd ganddi ddau grwt, a rheini tu draw i bob rheolaeth gartref ac yn yr ysgol, ac yn chwanog i roi eu dwylo ar


Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."
am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL**
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**
(Eric Morris)
Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

bopeth a oedd yn rhydd ar bost ac ar barad. Ond yr oedd yn dda gan Wil wrthi; roedd hi'n slanu gwaith, a ddim yn pwysu te arno bob deng munud iddi gael cyfle i eistedd hefo panaid ei hun.

Doedd Dilys ond prin wedi mynd y diwrnod hwnnw pan ddaeth dyn y ffarm yno hefo plismon. Roedden nhw wedi cael neges fod y milwyr ar eu ffordd ac yr oedd y dyn, chwarae teg, am i Wil fod yn bresennol i glywed beth fyddai ganddynt i'w ddweud. Erbyn iddynt gyrraedd y ffarm roedd yno fws bach wedi cyrraedd ac ynddo bedwar o gwnstabiliaid yn ysmygu a disgwyl. Ymhen rhyw chwarter awr, beth ddaeth ar sgri ond Land Rover ac ynddo ddau 'sapper' ac un yn gorporal.

Roedd hwnnw yn llawn ei bwysigrwydd ac yn ddiarmynedd. Doedd o ddim yn gweld y ffarmwr yn datod clo y cwt yn ddigon buan. Aeth i mewn fel llew rhuadwy a bu distawrwydd am ennyd, yna clywyd casgliad o'r fath araith, fel pe bai'r eirfa wedi ei chasglu o bob barics yn y wlad ers rhyfeloedd Napoleon. Pan ddaeth allan, yn goch ei wyneb, deallwyd fod y bom wedi diflannu, ac at yr hen Wil yr oedd y dyn, am rhyw reswm, yn cyfeirio ei lysnafedd. Neidiodd y dynion i'w cerbyd, a wŷr neb hyd heddiw sut y cymrodd hwnnw'r tro cyfyng sydd yn y lôn fach. Ond nid nes i Wil a'r ffarmwr fynd i mewn i'r cwt eu hunain, y darganfuwyd fod y ffenest gefn wedi ei thorri.

Cyn diwedd y dydd roedd y papur newydd wedi cael gafael ar yr hanes, a daeth dynes i weld Wil gyda dyn camera, ac wedi ei stilio, tynnwyd ei lun ar ganol codi tatws.

Buan iawn y pallodd y sôn, fel pob rhyfeddod naw diwrnod, hynny ydi nes y daeth Dilys rhyw ddiwrnod ac eistedd yn boenus heb wneud strocan o ddim.

'A deud wrthach chi,' meddai yn y diwedd, 'gw'bod nad eith o ddim pellach,' ac wrth hynny roedd Wil yn gwybod fod hanner y pentra yn meddu'r wybodaeth yn barod. 'Wyddoch chi'r bom honno? Wel, mi rydan ni wedi

cael hyd iddi.'

'Yn lle yn eno'r nef?' gofynnodd Wil.

'Yn yr eithin tu draw i gae chwarae'r plant.'

'Sut yr aeth hi i'r fan honno?'

'Yr hen hogia 'cw wedi 'i dwyn hi, y diawlad, a thorri'r ffenest. Mi aeth y ddau i ffraeo ac achwyn ar ei gilydd. Wedi bod yn chwarae hefo hi a'i chuddiad hi yn y fan honno. Mi aeth 'na rhywbath drwyddda i. Be fasa ora i mi neud, deudwch?'

'Wel, mi fydd yn rhaid i ti ddeud wrth y plismyn.'

'Eto? Ddiolcham nhw ddim i mi.'

'Wel, dyna chdi. Fydd rhaid i ti ddim deud sut yr aeth hi yno. Cymryd arnat mai'r hogia gafodd hyd iddi yn ddamweiniol wrth chwarae.'

Roedd Dilys yn ddigon bodlon ar y cyngor, ac er mawr rhyddhad i Wil ofynnodd hi ddim iddo ddod i'r bwtri. Roedd o wedi cael boliad ar foms am weddill ei oes. Ond bu'n rhaid iddo ddim symud o'r tŷ i gael y gweddill o'r stori. Daeth Dilys a honno yn gyflawn iddo.

Roedd Dilys wedi methu wrth feddwl na fyddai'r heddlu yn diolch iddi am ddweud wrthyn nhw am y bom. Roedd eu gwerthfawrogiad yn fawr — hynny ydi, nes yr aeth hi â nhw i'r eithin a chanfod nad oedd y peth yno wedi'r cwbl, ac wrth ddod yn ôl ar draws y cae doedden nhw ddim mewn tymer felys o gwbl, ond ar hynny, clywyd rhyw blant yn gweiddi, 'Ylwch be' sy gan Helen.'

Wedi troi eu sylw i'w cyfeiriad gwelodd y plismyn rhyw groten fach yn rhedeg i gyfeiriad y si-so, ac yr oedd hi'n gwasgu rhywbeth at ei mynwes fel dol. Felly, yn union y cafwyd y bom, meddai Dilys, ac yr oedd ei rhyddhad yn amlwg.

Roedd Wil Griffith, fodd bynnag, yn awyddus i gael gwybod i ble'r aethpwyd â'r bom, a'r noson wedyn daeth Dilys yno yn unswydd i ddweud wrtho.

'Mi aethon â hi yn ôl i'r cwt meddai, 'ar ôl cael rhywun i drwsio'r ffenest, a deud dim;

peth fasa ora iddyn nhw fod wedi'i neud o'r dechra. Ac yr oedd yna ddau blisman mewn car yn yr iard drwy'r nos nes daeth y ddau soldiwr yno yn y bora. Nid yr un rhai oeddan nhw chwaith, medda nhw, ac yr oeddan nhw yn deud wrth y dyn mai bom gwn mawr o'r rhyfal gynta oedd hi; rhywun mae'n debyg wedi dŵad a hi adra fel swfenir. Roedd y soldiwr yn deud y basa nhw yn ei gyrru hi i amgueddfa hen arfau rhyfal.'

Roedd Wil yn falch fod diwedd wedi bod ar yr holl fusnas anffodus, ond diolch braidd yn rhy fuan wnaeth o. Bore wedyn, roedd o yn gwrando ar y newyddion cynnar ar y radio

fach-ochr-gwely fel arfer a meiniodd ei glustiau pan glywodd y dyn yn dweud:

'Bnawn ddoe anafwyd dau filwr oedd yn teithio mewn cerbyd ar ffordd ger yr Amwythig. Hyrddiwyd eu cerbyd ar draws y ffordd nes iddo daro coeden. Mae'n gynnar eto i gael manylion parthed y ddamwain, ond credir eu bod yn cario ffrwydrion a fuont yn eu cyrchu o ardal wledig yng Ngwynedd. Mae ymholiad swyddogol yn barod ar dro...'

Fedrai Wil ddim peidio â meddwl am Dilys. Os yr oedd hi'n digwydd bod yn gwrando mae'n siŵr bod yna rhywbeth yn mynd drwyddi.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr
650552



ORIEL PLAS GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/ffacs: 0286 672619

Richard S. Humphreys



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o
Welyau a '3P/Suites'.

Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Merched y Wawr: Cafwyd noson agoriadol lwyddiannus iawn nos Fercher, 13 Medi, yn yr Ysgol Gynradd. Croesawodd y llywydd, Mrs Gwyneth Jones, nifer dda o aelodau newydd i ymuno â'r gangen. Cafwyd noson o ganu, adrodd ac eitem ar y corn gan Lleisiau'r Gweunydd, dan arweiniad Mrs Einir Wyn, Rhiwlas. Roedd y cyngerdd yn ddechrau campus i dymor o weithgaredd diddorol. Diolchwyd i'r côr gan Mrs Deilwen Hughes, yr islywydd. Paratowyd swper ysgafn gan aelodau'r pwyllgor.

Dymunodd y llywydd yn dda i bawb a symudodd ymlaen o ysgol a choleg i swyddi neu addysg bellach.

Cydymdeimlwyd â Mrs Williams, Llanddwyn, ar golli ei brawd; ac â Mrs M. Hughes, Bro Rhos, ar golli ei merch yng nghyfraith yn ddiweddar.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos

Fercher, 11 Hydref, yng nghwmni y paramedig Dafydd Jones-Morris.

Yr Ysgol Gynradd: Erbyn hyn mae'r 25 o blant a ddechreuodd yn yr ysgol wedi ymgartrefu ac maent bellach yn aelodau o deulu hapus yr Ysgol.

Cynhelir cyfarfod blynyddol Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ar 3 Hydref am 7 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i holl rieni'r ysgol, ac yn enwedig i rieni'r plant newydd, i'r cyfarfod.

Cydymdeimlo: Ddydd Llun, 18 Medi, yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Mrs Pierce Jones, Y Ddolwar Fach. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Diolch: Dymuna David C. Williams, 9 Bro Rhos, ddiolch i'w berthnasau a'i ffrindiau am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra yn yr ysbyty, ac am y gofal gan y meddygon a'r nyrsus yn Ward Conwy.

Diwrnod Gwobrwyo Plant Blwyddyn 6 yn yr Ysgol Gynradd



David Herbert a enillodd wobwr Mr a Mrs J. M. Griffiths am ei waith cerddorol.



Owian Siôn Williams yn derbyn Gwobr W. G. Ellis gan Mrs Bessie Ellis am y disgybl a wnaeth y gwaith gorau ym mhob agwedd o waith yr ysgol.



Enlli Haf Huws yn derbyn Gwobr Mr Selwyn Griffiths gan Gadeirydd y Llywodraethwyr, Mr Rhys Harries. Dymuniad Mr Griffiths oedd rhoi'r wobwr i'r disgybl a ddangosodd y diddordeb mwyaf ym mhob agwedd o'r diwylliant Gymraeg.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Bedydd: Fore Sul, Medi 10, yng Nghapel Bethel, gyda'r Parchg S. O. Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Shauna Elizabeth, merch fach Dewi a Karen Morris, Llys Ifor.

Croeso Adref o'r Ysbyty: Dymunwn adferiad iechyd llwyr a buan i Mr Gwilym Hughes, Bryn Peris, a Mr Gwilym Williams, Fferm Bod Hyfryd, wedi iddynt orfod treulio cyfnodau yn yr ysbyty.

Ymddeoliad: Dymunwn pob hapusrwydd i Mrs Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen, ar ei hymddeoliad o'i swydd yng nghegin Ysbyty Eryri.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Phil a Delyth Lowe, Gwylfa, ar enedigaeth eu mab bychan, Carwyn Tomos.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Osian Gwynedd ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21 oed; ac i Elain Owen, Glyn Awel; Deian Elfryn, Coed Gwydryn; Ceirion Williams, Gwernydd; a Derfel Williams, Bryn Beddau, ar ddathlu eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Dymuniadau gorau i chwi i gyd i'r dyfodol.

Dathlu Pen-blwydd Priodas: Llon-

gyfarchiadau i Mr a Mrs W. Jones, Treflys, ar ddathlu eu Priodas Arian. **Y Gymdeithas Lenyddol:** Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ar nos Lun, 30 Hydref, yn Y Ganolfan am 7.30 o'r gloch.

Noson o 'Adloniant a Chân' gan barti o Bwllheli, o dan arweiniad Mr Griff Owen, fydd yn dechrau y tymor. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd. Y tâl aelodaeth fydd £2. Bydd croeso hefyd i bawb ymuno a ni yn y noson agoriadol am dâl o £1.

Plaid Cymru: Cynhelir taith gerdded o gwmpas llwybrau'r ardal, o dan arweiniad y Cynghorydd Eurig Wyn, gan alw yng nghartrefi rhai aelodau, gan orffen yn nhafarn y pentref. Dechreuir o'r Ganolfan am 4 o'r gloch prynhawn Sadwrn, 30 Medi. Croeso i aelodau neu gefnogwyr. Dewch a dillad addas a digon o bres!

Diolch: Dymuna Rol Williams, 5 Pant y Waun, ddiolch o galon i'w deulu a'r holl gyfeillion a chymdogion am bob arwydd o garedigrwydd drwy ymweliadau, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniodd yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)


Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O
BROFIAD YN Y MAES




Argraffu a Ffotogopio Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T

Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

**48 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn/Ffacs: 870200

CROESAIR HYDREF



AR DRAWS

1. Mae'r ogla drwg rhwng eithafon
Clynnog yn fudr (6)


ATEBION CROESAIR MEDI

Daeth hanner dwsin o atebion anghywir i groesair mis Medi i law, a phob un wedi llithro ar 25 ar draws, 'Un â dyled iddo'. Nid AFRADWR yw'r ateb (*waster* ydi hwnnw) ond ACHREDWR (*creditor*).

O'r deg sydd weddill, sef Ceridwen Williams, Llanrug; Beryl Jones, Garndolbenmaen; William Hughes-Jones a Jean Hughes-Jones, y ddau o Bencaenewydd; Mabel Parry, Porthmadog; Olwen Owen, Llanberis; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Ceinwen Williams, Bethel; Mary Davies, Waunfawr; a Catherine Jones, Rhiw, Pwllheli; y mae dwy wedi dewis geiriau newydd ar gyfer 23 ar draws nad ydynt yn ffio'r patrwm - R-D, sef CREU a GLUD.

Cefais gliwiau da i'r gair PRYD gan ddau ohonoch, FFRWD gan ddau arall; IRAD; BRAD; CRUD (un o ddau begwn bywyd), ond yr un sydd wedi fy mhlesio i y mis yma ydi ymgais Mrs Mary Davies, Bryn Eithin, Waunfawr, sef 'I ROD' (1,3) - 'Ble'r aeth swydd Syr Wyn?' Iddi hi yr aiff £5 mis Medi.

Yr un math o dasg y mis yma eto, sef dewis gair newydd i ffio'r patrwm yn 25 ar draws, gair 4 llythrennau sy'n cynnwys y llythrennau a geir yn atebion 14 a 18 i lawr; yna creu cliw cryptig iddo, gan yrru eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 19 Hydref.



5. Y rhai hynny sy'n paratoi'r Eco am ei wely (8)
9. Hoff lecyn pob 'sgotwr (4-2-4)
10. Gwythien (4)
11. Gall Carwyn, ynghyd â'r gyntaf a'r drydedd o'r ier, ymweld yn aml (8)
12. Wrth newid lle y ddwy yn y canol, gall distryw droi'n fodolaeth (6)
13. Y wobr am ddod yn olaf, bron, am y gwagle sydd uwchlaw'r ddaear (6)
15. Croesawu (8)
17. Anifail anwes? Wel, mae bron yn amhosibl mynd oddi wrtho (8)
19. Troedfedd yn tyfu i fod yn llawn llath (6)
21. Cwys i fynd i'r weinidogaeth? (6)
23. Gall doli dderw fod yn real (8)
25. Ymborth (4) *Gweler y nodiadau*
26. Cynhyrchu tameidiau o beth llosg (10)
27. Rhai sy'n 1 ar draws yn y De (8)
28. Creu bywyd (6)

I LAWYR

2. Gwledd, ond nid ar fwrdd! (5)
3. Un sy'n rhedeg i geisio sicrhau na fydd ei bwysau'n gwneud hynny (7)
4. Disgrifiadol o dwll bach (9)
5. Y llyfr ffôn a'r tudalennau melyn (15)
6. Pedair llinell ar ddeg â phatrwm arbennig o odlau (5)
7. Y gwalch drwg, fe ddinistrir dri i hyn (7)
8. Imperialaidd (9)
14. Ymwrthodwyr (9)
16. Drama fach ddiffr a moesegol (9)
18. Yr hyn y gall prif genwair fod yn 9 ar draws (7)
20. Haid o adar (7)
22. Rhannu ar ôl cynhyrfu ci gwyllt Awstralia (5)
24. Un bach gwlanog sy'n ymgorfforiad o egni rhyfeddol (5)

Enillwyr Clwb Cant Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Mis Gorffennaf - 1, R. Evans, Llanrug (42); 2, J. A. Hughes, Deiniolen (12); 3, J. Owen, Bethel (37). Mis Awst - 1, J. G. Foulkes, Llanberis (16); 2, R. V. Parry, Bethel (7); 3, D. L. Roberts, Penisarwaun (5). Mis Medi - 1, P. Jones, Llanrug (23); 2, J. Gaffey, Bethel (19); 3, B. W. Hughes, Llanrug (1).

CYSYLLTIAD Â'R DRE' . . .

(Parhad o dudalen 16)

ond hefyd fel hyfforddwr. Ers rhai blyneddodedd bu nifer o ddisgyblion o ysgolion cynradd y dalgylch yn mynychu sesiynau 'rygbi mini' wedi eu trefnu gan Glwb Rygbi Caernarfon ar Y Morfa. Cafodd rhai cryn lwyddiant - efallai i chwi gofio fy erthygl ar y tri glew o Lanberis yn cynrychioli Gwynedd. Erbyn hyn mae nifer o'r plant cynradd hyn wedi cyrraedd Ysgol Brynrefail. Maent wedi cadw'r cysylltiad ac maent yn mynychu nosweithiau hyfforddi ar nos lau ar Y Morfa. Mae'r nosweithiau yn agored i blant rhwng 11 a 16 oed.

Ar y lefel leol gêm hollol amatur yw rygbi, ac felly y bydd hi hefyd. Mae'n gofyn llawer o amser ac ymroddiad o du'r unigolyn. Erbyn hyn mae clybiau Caernarfon, Bethesda a Bangor yn y Gynghrair Genedlaethol. Mae'r A470 yn gyfarwydd iawn iddynt felly!

Mae'n gostus hefyd, gyda'r kit angenrheidiol yn dreth ar adnoddau

clwb. Cofier gydag eilyddion bod hyd at 21 mewn carfan, a chyd 2 dim, mae'r gost yn cynyddu'n fawr.

I hyrwyddo sefydlu'r tîm rygbi yn yr ysgol crewyd partneriaeth gyda Chlwb Rygbi Caernarfon. Cyflwynwyd set o grysau rygbi i'r ysgol gan gadeirydd Clwb Caernarfon, Clive James. Gobeithio nad tân siafins fydd hyn ac y bydd yr un awydd a balchder gan hogiau'r ysgol i wisgo'r crys rygbi ag i wisgo'r crys pêl-droed. Rhaid nodi na fydd y bêl-droed yn dioddef gyda'r cysylltiad yma. Mae digon o 'stalwarts' ar y staff i sicrhau hynny.

'Wn i didm sut dymer oedd ar Mr Withers yr wythnos hon. Roedd ganddo gêm galed y Sadwrn diwethaf yng Nghwpan SWALEC yn erbyn Caernarfon.

Cymeraf y cyfle yma i ddiolch i nifer ohonoch am eich geiriau caredig am fy erthygl am Dic Parry. Y mae eich ymateb yn amlwg yn cefnogi fy sylwadau ac o reidrwdd yn adlewyrchu gwerthfawrogiad ei gyfraniad ar sawl lefel.

MYND DROT, DROT . . .

(Parhad o dudalen 16)

o symudiadau sy'n parhau am oddeutu 4½ munud. Yn ystod y cyfnod hwn rhaid dangos disgyblaeth o gerdded, trotian, canter, a theithio mewn cylch. Nid oes unrhyw doriad yn y rhaglen. Felly, mae'r newid o un symudiad i'r llall yn rhan allweddol o'r ddisgyblaeth. Yma, yn sicr, mae llygaid barcud y beirniaid ar y cystadleuydd. O gofio mai 20m x 40m yw maint y 'cylch' i'r 'novice' gellwch ddychmygu y ddisgyblaeth sydd ei hangen. Rhaid wrth baratoi trylwyr hefyd, gan fod gofyn i'r perfformiad gychwyn ar unwaith. Rhaid cynhesu'r march, a'i atgoffa o'r gwahanol gamau. Rhoddir cyfanswm o 200 marc am bob perfformiad. Rhoddir marciau am berfformiad y march, y marchog, ac am y cydbwysedd rhyngddynt. Y mae hynny yn amlwg o edrych ar y

cystadleuwyr.

Mae Grŵp Dressage Gogledd Cymru yn bodoli, ac mae'r aelodaeth yn cynyddu. Pencampwriaeth ansyddogol oedd yn Nhyddyn Diffr, ond yr oedd pawb yn canmol y drefniadaeth a'r cyfleusterau. Denwyd cystadleuwyr o gryn bellter - o Ddyffryn Conwy, Pen Llŷn a Môn. Roedd 40 yn cystadlu, yn amrywio o 12 i 60 oed. Un cystadleuydd lleol oedd yn bresennol y tro yma, sef Julie Munrow o Fethel. Braidd yn siomedig oedd hi a'i cheffyl, Mr Maestro, ar eu hymdrech gyntaf, ond gwnaeth yn llawer gwell yn yr ail ymdrech gan lwyddo i gipio yr ail wobr. Yn dilyn llwyddiant y cyfarfod mae bwriad i ddenu noddwyr a chynnal cystadleuaeth swyddogol yn y dyfodol. Yn sicr byddai hynny yn hwb sylweddol i John a Sharon am eu menter. Diolch iddynt am y croeso - ac am y baned a'r gacen siocled!

**Wavell
Roberts**

CIGYDD

**London House
LLANRUG**

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans

GARNET, LLANRUG

Ffôn: 673981/675807

CHWARAEON

RAS CEFN DU



Y rhedwyr yn cychwyn o'r Ysgol Gynradd.

Y rhedwr rhyngwladol Colin Donnelly o fro'r Eco oedd enillydd cyntaf Ras Cefn Du a gynhaliwyd o Lanrug ar nos Fawrth, Medi 12fed. Trefnwyd y ras fel rhan o weithgareddau Llanrug i godi arian tuag at sefydlu Canolfan Gymdeithasol newydd yn y pentref, ac er mai nifer cymharol fechan o redwyr a fu'n cystadlu, eto'i gyd, cyflwynwyd siec o £50 i'r gronfa.

Eleni oedd y tro cyntaf erioed i ras gael ei chynnal, a'r bwriad gwreiddiol oedd anfon y rhedwyr yr holl ffordd i'r copa ac yn ôl. Ond oherwydd nad oes llwybrau clir iawn ar y rhan uchaf o'r mynydd, a'r ffaith fod y grug yn llawer mwy trwchus nac arfer eleni, bu'n rhaid cwtdogi'r cwrs, ac anfon y rhedwyr i ben y Garreg Lefain. Hyd yn oed wedyn, roedd rhannau o'r llwybr o'r Garreg Arthur i'r Garreg Lefain yn drafferthus. Roedd y llwybr ar i llawr yn un cyflym, a methodd rhai rhedwyr a dilyn y cyfarwyddiadau, gan ddringo camfa a'i heglu hi i lawr am y Ceunant. Dysgwch y gwahaniaeth rhwng camfa a giât mochyn erbyn y tro nesa bois!


Roedd yr holl redwyr o fewn deuddeng munud i'w gilydd, gyda Colin yn cwblhau'r daith o fuarth Ysgol Gynradd Llanrug i gopa'r Garreg Lefain ac yn ôl mewn 29 munud. Yn ail, roedd Phil Llan Jones (sef y rhedwr cyntaf dros 40 oed). Steve Barnard o Benisarwaun oedd yn drydydd ac Alan Hughes o Lanberis yn bedwerydd (ail redwr dros 40).

Yn y ras i rai dan 16 oed, i'r Garreg Arthur ac yn ôl, ddaeth neb o fro'r Eco i gystadlu yn ras y bechgyn, ac aeth y wobwr gyntaf i Huw Twrog o fro Llew. Ond hawliodd Iona Williams o Lanrug y wobwr gyntaf yn adran y genethod.

Prif noddwyr y ras oedd cwmni Celtest, Bangor, a gwesty Seiont Manor, Llanrug. Dymuna'r trefnydd ddiolch i bawb am eu cymorth parod ar y noson. Gobeithir cynnal y ras yn flynyddol o hyn ymlaen, ond y bwriad yw ei rhedeg yn y

gwanwyn o hyn ymlaen, er mwyn rhoi digon o amser i'r rhedwyr gyrraedd y copa y tro nesaf.

MYND DROT, DROT . . .



Julie Munrow o Fethel a 'Mr Maestro' — ail da ar eu tomen eu hunain.

Oes y peiriannau yw hi y dyddiau hyn yn bendant ym myd amaethyddiaeth. Bob mis byddaf yn mynd i stiwdio John Owen ym Mhenrhynbach i ddarlenn erthyglau yr Eco ar gyfer y deillion. Yr oedd 'Y Gwalch' yn cyfeirio at y ceffylau gwedd, ac yn ein hatgoffa nid yn unig o'u pwysigrwydd ar lawr gwlad, ond am y cysylltiad agos rhwng dyn ac anifail.

O gwmpas maes criced Bangor mae cae yd. Un Sadwrn yn ddiweddar llwyddodd yr amaethwr i gynhaeafu'r cnwd. Ar Sadwrn arall, llwyddwyd i ailaredig y cae. Cofiaf fy nhaid yn dweud wrthyf am y cyfnod wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf fel y byddai'r gweision yn gwneud y gwaith. Nifer gyda phladuriau yn cynaeafu, ac yn aredig gyda'r ceffylau gwedd. Yn wir, yn ystod fy mhientyndod yn y 50au roedd diwrnod 'rasus aredig Tŷ Newydd' yn tynnu cryn dorf.

Mae cornel o bentref Bethel erbyn hyn wedi mynd yn atyniad mawr i fyd y ceffylau. Ar un ochr i'r ffordd mae'r Gwyndy. Yno mae stablau ac

hefyd maes pwrpasol ar gyfer hyfforddi ceffylau. Mae cwrs neidio yno hefyd. Ar draws y ffordd mae Tyddyn Difyr, cartref John a Sharon Williams. Mae'r ddau wedi ymddiddori ym myd y ceffylau ers amser. Erbyn hyn mae lle pwrpasol ar gyfer y ceffylau ar dir Tyddyn Difyr. Yn y gorlan ceir trwch o dywod, ble gellir hyfforddi'r ceffylau heb boeni am anaf iddynt. Nid oedd y tywydd braf yr haf yma yn llesol i hyfforddi ceffylau ar y caeau gan fod tir rhy galed yn achosi cryn straen i fferau'r ceffylau. Mae'r maes tywod felly yn gaffaeliad mawr.

Yn ddiweddar cynhaliwyd cystadleuaeth 'dressage' ar dir Tyddyn Difyr. Mae hon yn ddisgyblaeth arbennig, yn seiliedig ar y marchog a'r ceffyl yn gweithio fel un. Mae'r cystadleuwyr yn nisgyblaeth y 'dressage' yn cael eu rhannu i safon 'preliminary', 'novice', ac yna y rhai profiadol. Haen y 'novice' oedd yn cystadlu yn Nhyddyn Difyr. Mae'n ofynol i'r marchog gyflwyno rhestr

(Parhad ar dudalen 15)

CYSYLLTIAD Â'R DRE'



Clive James, cadeirydd Clwb Rygbi Caernarfon, yn cyflwyno crysau newydd i dîm rygbi Ysgol Brynrefail.

Yn fy erthygl am Dic Parry yn y rhifyn diwethaf soniais am y cysylltiad agos rhwng Ysgol Brynrefail â Chlwb Criced Fron Dinas. Cafodd y tîm hwnnw dymor pur lwyddiannus eleni yng Nghyngair Gwynedd, a rhai o gyn-ddisgyblion yr ysgol yn chwarae rhan amlwg. A wireddir y freuddwyd o gael tîm Bro'r Eco tybed? Mae cysylltiad yr ysgol ag athleau trwy Glwb Eryri, ac â phêl-droed trwy'r timau lleol yn sefydlog ers cryn amser. Erbyn hyn, mae cysylltiad arall yn cael ei ffurfio, a hynny ar y maes rygbi. Wedi seibiant am lawer blwyddyn mae bwriad i ailsefydlu y gêm rygbi (amatur ar hyn o bryd) yn yr ysgol. Y symbylydd yw Keith Withers, yr athro addysg gorfforol newydd. Mae Keith yn chwarae i glwb llwyddiannus Bethesda. Y mae yn cyfrannu i lwyddiant y clwb hwnnw, nid yn unig fel chwaraewr

(Parhad ar dudalen 15)

Pytiau wrth Basio . . .

Llongyfarchiadau i Tom Evison, Caeathro, ar gael ei ddewis yn chwaraewr y flwyddyn adran ieuencid Clwb Criced Bangor. O gofio bod carfannau -12, -14 a -16 yn y Clwb mae'n dipyn o gamp i Tom, o gofio mae 11 oed ydyw. Ar wahân i'w berfformiadau i'w glwb mae'r batiwr llaw-chwith a throellwr wedi cynrychioli tîm Gwynedd mewn cystadleuaeth ryng-wladol yn Aberystwyth ac Abertawe.

Mae'r tymor dartiau wedi ail-ddechrau a chafwyd 'derby' gyffrous yr wythnos gyntaf gyda'r Bedol yn curo'r Gors Bach o 5-3. Perfformiad y noson oedd un John Morgan, Llwyn Bedw, a enillodd gêm gynta'r tymor yn erbyn chwaraewr 'addawol' iawn, 'The pen is mightier than the dart!'

Mae Marc Lloyd Williams wedi cynrychioli Stockport yn y mwyafrif o gêmiau hyd yma y tymor hwn. Mae'n amser gôl erbyn hyn. Yn sicr, mae Bangor yn gweld ei golli. Roedd Gavin Allen yn eilydd mewn gêm ddiweddar i Stockport. Dalied ati! Bûm yn yr Oval yn ddiweddar i weld y Cofis yn chwarae yn erbyn Conwy. Ar egwyddor yr ês yn ôl yno, a braf oedd gweld cryn gefnogaeth i'r Cofis, er bod angen ychydig o wynebau newydd arnynt. Yn sicr, byddai asgellwr naturiol ar faes eang yr Oval yn gaffaeliad. Gyda llaw, gofynnodd llawer imi beth oedd 'cefnogwr Bangor' yn ei wneud yn yr Oval, a braf oedd cael ateb mai cefnogi Cynghrair Cymru yr oeddwn!

Mae cystadleuaeth yn yr ystafell athrawon acw — beth fydd yn anaf fydd yn peri i Giggs fethu gêm Cymru yn erbyn yr Almaen? Pwy a ŵyr? Bwyta gormod o Yorkies, efallai?!

RASUS CYFNEWID

Pencampwriaeth Mynyddoedd Prydain

Ar ddydd Sul, Hydref 15fed, cynhelir Pencampwriaeth Flynyddol Rasmus Cyfenewid Cymdeithas Rhedwyr Mynydd Prydain. Dyma'r tro cyntaf iddi gael ei chynnal yng Nghymru, a Chlwb Rhedwyr Eryri fydd yn ei threfnu. Bydd y rhedwyr cyntaf yn cychwyn o'r Ganolfan, Llanberis, am 10 y bore, a disgwylir i'r rasmus fod drosodd tua 4 yn y pnawn. Bydd tua 80 tîm o 6 rhedwr yn cystadlu. Dewch i Lanberis i wyllo ac i gefnogi.